

ECO'R WYDDFA

Rhif 166

CHWEFROR 1991

Pris 25c

GWAITH YN Y FRO Y MELYS A'R CHWERW

Yn ystod dyddiau olaf Ionawr, roedd sŵn gwaith i'w glywed unwaith yn rhagor a ran o safle hen chwarel Glyn Rhonwy, ger Llanberis. Mae'r contractwyr yno ar ran cwmni Americanaidd, yn gosod sylfeini ar gyfer unedau ffatri.

Cwmni cyflenwadau meddygol yw Grŵp Ryder Knight sy'n gobeithio cyflogi rhwng 30 a 40 o weithwyr cyn diwedd y flwyddyn. Derbyniodd y cwmni ganiatâd cynllunio gan Gyngor Arfon yn ôl ym mis Tachwedd i godi'r adeiladau ar y safle sy'n ffinio ar Ffordd Clegyr. Bydd y rhan gyntaf o'r datblygiad yn adeilad trillawr yn gorchuddio 100,000 troedfedd sgwar gyda ffyrdd a meysydd parcio o'i gwmpas. Yn ôl y cynlluniau a welodd gohebydd yr *Eco* mae'r ail ddatblygiad yr un mor fawr ei arwynebedd â'r cyntaf.

Yn ôl yr is-contractwyr mae gwaith i labrwy, gosodwyr dur, a seiri ar y safle. Newyddion da yn wir fydd gwireddu cynllun o'r math hwn a'r maint yma — cynllun sy'n ymddangos yn llawer mwy cydnaws â'r fro a'i phobl ac yn fwy realistig na breuddwydion

cwmni fel Leading Leisure i droi'r ardal yn un parc gwyliau drudfawr.

* * * *

A'r Eco ar fynd i'r wasg, daeth newyddion o fath gwahanol o Lanberis, newyddion sy'n dangos yn greulon bod dwy ochr i'r geiniog economaidd.

Fore Mawrth, 29 Ionawr, cyhoeddodd Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa fod pedwar o'u gweithwyr yn gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith. Bydd tri arall yn gorfod peidio gweithio a 22 yn gweithio wythnos 3-diwrnod tan Fawrth 7. Ar ôl y dyddiad yna bydd eu sefyllfa gwaith yn normal unwaith eto.

Mae hyn wedi gorfod digwydd oherwydd problemau arian parod ('the cash-flow situation', oedd geiriau Mr Rogerson, Rheolwr y cwmni) yn deillio o logau uchel ar fenthyciadau. Yn eironig iawn, cafodd y cwmni flwyddyn lwyddiannus iawn y llynedd.

MENTRO MEWN BUSNES



Michael Thatcher — 'Express Signs'

Tybed ydach chi wedi meddwl erioed o ble daw arwyddion siopau, llythrennu ar faniau gwaith a cheir cwmnïau? Y math yma o waith ydy galwedigaeth Michael Thatcher sy'n byw ym Methel.

'Mi ddechreuais fy musnes ym mis Mawrth yn gwneud arwyddion ac yn eu gosod lle bynnag mae eu hangen nhw,' meddai Michael.

'Cyn dechrau ar fy liwt fy hun, roeddwn i'n gweithio i gwmni yn gwneud arwyddion ac mi welais fod yna ddigon o waith i'w gael yn y maes yma i mi ddechrau fy musnes fy hun.

'Ar ôl penderfynu sefydlu fy musnes yr unig beth oeddwn i ei angen oedd cefndir yn yr elfennau angenrheidiol ar gyfer bod yn hunangyflogedig, felly mi es i at Menter Gwynedd am hyfforddiant.'

Bu Michael ar 'Hyfforddiant Menter', sef cyfnod oedd yn cynnwys cwrs ar elfennau busnes ynghyd â sesiynau wythnosol efo tiwtor proffesiynol i drafod datblygiadau'r paratodau ac unrhyw broblemau oedd yn codi.

'Mi ddysgais i dipyn am fydd

busnes trwy fynd ar y cwrs yma. Roedd o'n help garw ar gyfer bod yn feistr arnaf fi fy hun ac yn ffordd dda o arbed gwneud camgymeriadau allasai fod yn gostus iawn,' ychwanegodd Michael.

'Fy ngwaith i'n fyr ydi gwneud arwyddion ar gyfer siopau, diwydiannau a cherbydau. Mae hynny'n golygu trafod efo'r cwsmer i weld beth fyddai'n addas ar gyfer y cwmni, y lleoliad o safbwynt diogelwch a bod mewn lle amlwg i bawb fedru ei weld.

'Yn ddiweddar rŵan mi wnes addasu'r rhan o' ngweithdy ym Mryn Afon, Crawia, i allu dod â cherbydau i mewn fel mod i'n medru gosod y llythrennu arnyh nhw heb gael y tywydd yn creu anhawsterau.'

Ar ôl blwyddyn eitha da y llynedd mae Michael Thatcher rŵan yn edrych ymlaen am flwyddyn lewyrchus ym 1991.

ANRHYDEDDU GŴR YR HENEBION

Llongyfarchiadau i Hugh Pritchard Williams, Glyn Afon, Llanrug, sydd wedi ei enwebu ar restrau anrhydeddau'r flwyddyn newydd i ddergryn yr MBE. Bydd yn derbyn yr anrhydedd am ei wasanaeth hir ym myd cadw a gwella cyflwr henebion.

Dechreuodd weithio yn y gwasanaeth hwn ('Cadw' yw'r enw arno ers tua chwe blynedd bellach), fel saer yn ôl ym 1957. Ugain mlynedd yn ddiweddarach fe'i dyrchafwyd i'w swydd bresennol, sef Rheolwr Gwaith Rhanbarthos — sy'n golygu mai ef sy'n bennaf gyfrifol am gynnal a chadw hen gladdfeydd, cestyll a nifer o eglwysi a chapeli Gogledd Cymru.

Bellach daeth dros y sioc a gafodd pan glywodd gyntaf am y peth gan swyddog y wasg 'Cadw', nos Sul ola'r flwyddyn. 'Mae'n well gen i weithio yn y cefndir yn hytrach nag yn y golau,' meddai.



Dyweddodd hefyd y byddai'n siwr o deimlo'n fwyfwy nerfus fel y daw'r seremoni arwisgo ym Mhalas Buckingham yn nes. Digwydd hynny ymhen ychydig fisoedd.

DIOLCH I DRIGOLION WAUNFAWR AM BLYGU'R RHIFYN HWN O'R ECO

UNDEB YN 80 OED



Undeb y Mamau, St Peris a St Padarn, Llanberis yn dathlu.

Ddiwedd y flwyddyn cafwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys St Padarn, Llanberis, gyda'r Rheithor, Parchg Peter Pritchard yn gwasanaethu, i ddathlu pen-blwydd cangen Undeb y Mamau yn 80 oed ac i sefydlu Baner newydd. Daeth aelodau o Lanrug a Chwm-y-Glo i ymuno yn y dathlu. Cafwyd swper

yng Ngwesty Dolbadarn wedi ei ddarparu gan yr aelodau. Diolchwyd i Mr a Mrs Aneurin Jones am eu caredigrwydd. Torwyd cacen y dathlu gan Mrs G. O. Edwards, Victoria House, a Mrs Nellie Roberts, Nant Peris. Gwahoddwyd hefyd aelodau yr Eglwys a phlant côr St Padarn. Cafwyd noson hapus iawn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 166
CHWEFROR 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Flordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH,
CHWEFROR 19
os gwelwch yn dda.

Llafar

DIM LLE YN Y LLETY?

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rhoddwyd cryn sylw i broblemau'r digartref o fewn Arfon, gyda sylw arbennig i'r ecsplôitio a gai ei wneud gan rai unigolion diegwyddor yn manteisio ar sefyllfa'r dioddefwyr. Ychydig cyn y Nadolig cafwyd cyflwyniad addas gan aelodau o Theatr Bara Caws yn Ysgol Brynrefail, unwaith eto yn gosod y pwyslais ar anallu y gymdeithas yn gyffredinol i ymdopi â'r sefyllfa. Yn yr un cyfnod roedd Prif Swyddog Tai Cyngor Arfon yn ei adroddiad misol yn nodi fod mwy o bobl ar restr aros y Cyngor nag a fu erioed o'r blaen. Dadleuwyd mewn sawl lle ac ar wahanol amgylchiadau fod polisïau'r llywodraeth bresennol wedi bod yn gyfrwng i ddwyshau'r sefyllfa, ac mai gweithredu o fewn ffiniau cyfyng yn unig y mae unrhyw Gyngor, pa mor dda bynnag fo'i fwrïadau. Dyna pam mae Cymdeithasau Tai wedi bod yn gyfrwng i lenwi'r bwlch yn yr angen am dai-ar-rent.

Teg gofyn, mewn cymdeithas a gwlad sy'n honni bod yn Gristnogol, beth yw ymateb y capeli a'r eglwysi i broblemau'r di-gartref o fewn ein bro? Tybed, tybed a'i ymddwyn fel yr offeiriad a'r Lefiad, a mynd o'r tu arall heibio a wnaethant hyd yma?

Ond y mae arwyddion fod yr Eglwys yn deffro i anghenion y di-gartref. Eisoes y llynedd, yn y Felinheli, gwelwyd aelodau un o'r capeli yn cytuno i wneud cais cynllunioo am addasu'r addoldy er mwyn cynnig cartrefi pwrpasol gogyfer â'r henoed. Bydd rhan o'r capel yn parhau'n lle i addoli, ond y gweddill yn cael ei ddefnyddio er budd pobl yn y gymdeithas. Ac onid dyma un o'r atebion posibl i'r holl gapeli ac eglwysi sy'n dadfeilio'n gregyn gwag o fewn ein broydd. Y llynedd cynhaliwyd y gwasaneth olaf yng nghapel y Glasgoed. Ddiwedd y mis hwn, yr un fydd tynged capel Disgwyllfa, Deiniolen. A sawl capel arall fydd yn eu dilyn cyn diwedd y degawd hwn?

Wrth gwrs fod problemau. Mae gwahanol drefniadaeth yn perthyn i'r gwahanol enwadau crefyddol. Mae cymhlethdodau yswiriant a buddsoddiadau ariannol i'w datrys. Ac y mae ceisio dwyn perswad ar aelodau capeli unigol yn fwy o fwgan byth. Ond y mae'r rhod yn troi'n araf. Da deall fod Cymdeithas Tai Ecwmenaidd i'w sefydlu'r gwanwyn hwn. Bydd yn rhaid aros i weld beth fydd ei hamcanion, a sut y bydd yn gweithredu.

Yn y cyfamser, ystyriwch pa werth sydd i gynnal capeli gweigion tra bo pobl ifanc a rhai hŷn yn gorfod cysgu allan ym mhob tywydd oherwydd na ddaeth y Samariad Trugarog heibio eto.

Mentro Efo Mela

Annwyl Olygydd,

A fuasech mor garedig â chaniatáu i ni ddefnyddio eich colofn lythyrau i ddiolch i'r rhai o blith eich darllenwyr a fu'n gefnogol i Pais dros y deuddeng mlynedd ddiwethaf fel dosbarthwyr, cyfranwyr a phrynwyr y cylchgrawn. Trist yw cofnodi bod y rhifyn olaf o Pais wedi ymddangos ym mis Ionawr ond gyda llawenydd y cyfarchwn gylchgrawn newydd sbon i ferched, sef mela a gyhoeddir ym mis Mai, 1991. Gyda golygyddion newydd, diwyg ffres, tudalennau lliw, erthyglau difyr a chlwr sgleiniog bydd mela yn siwr o apelio at bob merch a hyderaf y bydd y cylchgrawn newydd yn derbyn yr un gefnogaeth. Os oes gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn dosbarthu mela (cynigir telerau ffafriol), cyfrannu erthyglau neu dderbyn copi trwy'r post cysyllter â ni yn y cyfeiriad isod. Diolch eto i gefnogwyr Pais o fewn eich ardal.

Yn gynnes,
ANN LLWYD
(cyn-olygyddes Pais)
Stiwio Mei,
Penygroes.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Cystadleuaeth Merch Mela

Mae MELA, y cylchgrawn newydd i ferched a gyhoeddir ym mis Mai, yn chwilio am dair merch — o bob oedran — i gynrychioli gwedd y nawdegau ac i ymddangos ar glawr cyntaf y cylchgrawn.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i bob merch o bob oedran dros bymtheg oed.

Bydd yr enillwyr yn:

- ★ treulio diwrnod yng nghwmni arbenigwr yn dewis gwisgoedd o rai o dai ffasiwn adnabyddus Cymru
- ★ treulio diwrnod yn stiwdio Barcud yn derbyn sylw arbenigwyr ym myd coluro a thrin gwallt, a chael tynnu eu lluniau gan ffotograffydd proffesiynol
- ★ bydd y cyfan yn cael ei recordio gan griw HEL STRAEON

I gymryd rhan, anfonwch eich enw, cyfeiriad, oedran, ynghyd â llun clir ohonoch eich hun erbyn **Chwefror 15 i 32-36 Stryd yr Wyddfa, Pen-y-groes, Gwynedd LL54 6NG.** Ffôn/Ffacs: (0286) 880302

AR WERTH

Stôf a Boiler Parkrau. Yn gweithio yn dda. £100 neu'r cynnig agosaf.
Ffôn: Felinheli 671046.

Beth am Ganolfan?

Annwyl Olygydd,

Cefais y fraind o fod yn Capel Mawr, nos Wener, Rhagfyr 14, yn gwrando ar blant Ysgol Gynradd Llanrug yn adrodd hanes y Nadolig mewn cân a drama. Roedd llwyddiant y noson yng ngofal Mr D. I. Roberts, y prifathro, gyda gweddill yr athrawon yn cynorthwyo yn rhagorol ac wedi gweithio yn galed iawn dros bythefnos yn unig. Pob clod iddynt ac wrth gwrs i'r plant — hwy oedd y sêr.

Gresyn fod rhai wedi gorfod sefyll gan fod rhan o'r oriel wedi ei gau oherwydd fod y capel yn cael ei drin — ers tair blynedd a dim golwg y bydd y gwaith wedi ei orffen am daith blynedd arall! Beth sydd o'i le tybed?

Mae rhan helaeth o weithgareddau Llanrug yn cael eu cynnal yn yr Ysgol Gynradd, Ysgol Brynrefail neu Ffestri Capel Mawr. Mae'n gywilydd i bentref o'i faint nad oes yma Ganolfan, fel sydd yn Y Waunfawr a llawer o bentrefi llai fel ar Ynys Môn. Mewn undeb mae nerth.

Diolch am y noson ac i'r Capel Mawr.

Yn gywir,
E. Wyn Roberts
12 Nant y Glyn, Llanrug

CYFARFOD CYHOEDDUS Antur Padarn

Annwyl Olygydd,

Caniatewch i mi dynnu sylw eich darllenwyr at y **Cyfarfod Cyhoeddus** sydd i'w gynnal gan Antur Padarn ar nos Fercher, Chwefror 6ed am 7 yn yr Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis ar gyfer lansio ein holiadur.

Er mwyn llwyddiant i'r gwaith dymunwn weld cymaint ohonoch ag sydd bosibl yn bresennol yn y cyfarfod hwn gan mai y bwriad yw dosbarthu yr holiaduron ymhob pentref yn yr ardal. Felly os ydych am weld eich pentref chwi yn cael rhan yn y gwaith pwysig hwn, yna sicrhewch bod cynrychiolaeth gref ohonoch yn dod i'r cyfarfod.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar y 6ed o Chwefror.

Llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,
GLYN TOMOS (Cadeirydd)
Pen y Bwlch, Dinorwig.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

CHWILOTWYR Y CARIDAU POST

Annwyl Olygydd,

Diddorol dros ben oedd yr erthygl yn ymwneud â Eric a John Edwards ei fab, sef 'Chwilota Cardiau Post — Noddfa'r Wyddfa', yn rhifyn Eco'r Wyddfa, rhifyn Rhagfyr-Ionawr 1990-91. Rhaid yn wir eich canmol fel papur bro, a diolch am gynnwys deunydd tra derbyniol ac hynod ddefnyddiol am deulu'r Edwards, Llanberis. Prin yw'r trin a'r trafod drwy gyfrwng y Gymraeg, ysywaeth, ar faes mor doreithiog â chardiau post, a hynny er bod nifer o gasglwyr Cymraeg eu hiaith, eraill yn ddi-Gymraeg, yng Nghymru.

Un ffaith ddiddorol, Mr Golygydd, tybed a'wyr darllenwyr Eco'r Wyddfa mai'r Wyddfa a ddangoswyd ar y cerdyn darluniadol cyntaf yng ngwledydd Prydain. Gŵr o'r enw Adolph Tuck, a gartrefai yn Llundain fu'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Darlun bychan o'r Wyddfa, ac yn 1894 y'i cyhoeddwyd. Dywedir fod y cerdyn post hwn ar werth a gopa'r Wyddfa.

Ys gwn i a oes gwybodaeth gan drigolion Llanberis a'r cylch am ŵr o'r cyfenw Francis a fu'n cynhyrchu cardiau post â golygfeydd lleol arnynt. Digwydd taro ar un a wnes i — llun o Eglwys Dolbadarn, llun du a gwyn, a rhoir cyfeiriad Francis fel Llanberis a Chaernarfon. Pwy ŵr rhagor o'i hanes?

Un cerdyn post du a gwyn sy' gennyf yn fy meddiant sy'n dangos 'Noddfa'r Wyddfa'. Gall fod o ddiddordeb i rai ohonoch, oherwydd dangosir yr adeilad fel un adfeiliedig — mae'r to hyd yn oed wedi mynd a'i ben iddo. Saif tri gŵr tu allan i'r tŷ. Frith Cyf., oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r cerdyn post dan sylw; hwn eto wedi'i gynhyrchu y tu allan i Gymru.

Da gweld i frodyr lleol fentro i'r byd masnachol cardiau post, a thrwy wneud hynny, rhoddasant ar gadw rhywbeth mwy gwerthfawr — tystiolaeth o fywyd fel yr oedd oherwydd yn y bôn cyflwyno hanes a wna pob cerdyn post o ran y darlun, neges, stamp neu'r addurniadau.

Fodd bynnag, diolch i Eco'r Wyddfa am sôn mor ddiffr am y tad a'r mab o Lanberis — yr Edwardiaid. Buoch yn ysgogiad pellach i mi fynd ati i gribinio a chwilota. Mae casgliad gennyf o'i gardiau post sy'n ymwneud â'r Wyddfa — gwahanol olygfeydd ohoni — a'r cribau — mi synech faint o gardiau post sydd yna mewn gwirionedd. Ond doedd cerdyn post Eric a John Edwards ddim gennyf. Diolch am fy nhaniol!

Yn ddiffuant,
Dafydd Guto, Bethel

Addysg a Hyfforddiant

Mewn dyddiau o newidiadau mawr ym myd gwaith ac mewn bywyd o ddydd i ddydd mae mwy a mwy o oedolion bellach yn dangos diddordeb mewn dychwelyd i fydd addysg a hyfforddiant.

Yn sgîl hyn, er mwyn rhoi cyfle i bobol Gwynedd wybod pa gyfleoedd sydd ar gael yn lleol, bydd Y Coleg Normal, Coleg Pencraig a Gwasanaeth Cyngori Oedolion Gwynedd yn trefnu i ymweld â'r ardal yn ystod y misoed nesaf i gynnig gwybodaeth a chynghor ynglŷn ag addysg a hyfforddiant i oedolion.

Bydd Canolfan Gyngori arbennig yn ymweld â Chaernarfon ar ddyddiau Mercher, Chwefror 13 a Mawrth 13 a'r 20, rhwng 10 a.m. a 4 p.m. Fe'i lleolir yn Uned Deithol Y Coleg Normal ar y Maes yng Nghaernarfon. Ar y dyddiau hyn, bydd croeso i unrhyw un alw i mewn boed am sgwrs anffurfiol neu i drafod yn gyfrinachol syniadau a dewisiadau ar gyfer y dyfodol.

CYMRU AR BYD Angen Pobl Gyhoeddus

Annwyl Olygydd,

Mewn ymgais i fod o wasanaeth ymarferol i'n cymrodwr tu allan i Gymru, yr ydym fel Mudiad wrthi'n paratoi rhestr o unigolion a grwpiau fyddai'n barod i ddarlitho a/neu fod yn siaradwr gwadd a/neu'n ddiddanwyr yng nghyfarfodydd y Cymdeithasau Cymreig yn Lloegr a'r Alban a thros y môr. Gall hyn fod am dâl a/neu'n wirfoddol, wrth gwrs.

A wna y personau hynny felly sydd â diddordeb mewn cynnwys eu henwau yn y cyfryw restr anfon rhagblaen, os gwelwch yn dda, at ein Llywydd Anrhydeddus (T. Elwyn Griffiths), 15 Erw Wen, Caeathro, Caernarfon, Gwynedd. Bydd eich cymorth yn wir dderbyniol.

Yn gywir,

OSIAN WYN JONES,
Ysgrifennydd Mygedol.

RHODDION

- £5 Mrs Evans (Lloc gynt), Llys Eiddon, Llanrug.
- £5 Mrs Ann Paterson, 1 Bryntirion, Penisarwaun.
- £5 Mrs A. Williams, Cartref Henoed, Foelas, Llanrug.
- £3 Mr Alun Rowlands, 5 Hafan Elan, Llanrug.
- £3 Teulu'r diweddar J. A. Pritchard, 11 Stryd Ceunant, Llanberis.
- £2 Helen Mair Jones, Deiniolen.
- £2 Mari a Billy, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen.
- £2 Mr R. Parry, 12 Bro Rhuddallt, Llanrug.

SELWYN YN YR AIFFT



Trowch i dudalen 13 am y stori.

Ffôn Ddi-dâl

Annwyl Olygydd,

Efallai fod rhai o'ch darllenwyr eisoes yn gwybod am wasanaeth ffôn, rhad ac am ddim, yn Saesneg, gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol (Social Security Freeline), er rhoi cyngor i'r cyhoedd ar faterion yn ymwneud a budd-daliadau, pensiynau, Yswiriant Gwladol, ac yn y blaen.

Ym Mholisi Iaithe Gymraeg yr adran, a gyhoeddwyd fis Gorffennaf y llynedd, un o'r penderfyniadau oedd i weithredu'r gwasanaeth uchod drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Carwn i'ch darllenwyr wybod fod y gwasanaeth Cymraeg ar gael ar ddiwrnodiau gwaith o 7 Ionawr eleni.

Y rhif i alw, rhwng 9 a.m. a 4.30 p.m. yw **0800 289011**.

Pwysleisir fod y gwasanaeth, sydd ar gael i bawb drwy'r wlad, yn gyfrinachol, ac nad yw'n gysylltiedig a swyddfeydd lleol yr adran.

Os ydych angen mwy o wybodaeth, mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Yr eiddoch yn gywir,
CEMLYN R. WILLIAMS,
Adran Nawdd Cymdeithasol,
Penrallt, Caernarfon.

'CYLCH'

Annwyl Olygydd,

A gaf i, trwy'ch tudalen lythyrau, dynnu'ch sylw at gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan fudiad newydd o'r enw 'Cylch'.

Saif yr enw 'Cylch' am 'Cymdeithas y Lesbiaid a'r Hoywon Cymraeg eu Hiaith' ac erbyn hyn y mae dau gyfarfod wedi'u cynnal at ddiben ffurfio rhwydwaith cymdeithasol a gwleidyddol i lesbiaid a hoywon Cymraeg.

Penderfynwyd ar rai nodau penodol, megis ymgyrchu yn erbyn rhagfarn trwy godi ymwybyddiaeth, ffurfio rhwydwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned lesbiaidd a hoyw a rhoi ystyriaeth arbennig i anghenion lesbiaid trwy gynnal cyfarfodydd i fenywod yn unig.

Ceir manylion am y gymdeithas ac am y digwyddiadau trwy gysylltu â **Blwch Swyddfa'r Post 23, Aberystwyth, Dyfed SY23 1AA**.

Yn gwir,
Swyddog y Wasg 'Cylch'

NOSON O HWYL ETO YN Y FIC

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y cyngerdd o hwyl Cymreig a gynhaliwyd yng ngwesty'r Victoria, Llanberis ym mis Tachwedd y llynedd, cynhelir noson gyffelyb ar nos Iau, Chwefror 21 gyda'r parti meibion talentog 'Lleisiau'r Frogwy' o Ynys Môn, o dan arweiniad Gareth Glyn. Yn ogystal, ceir

adroddiadau hwyliog gan Leslie Williams, yr enillydd cenedlaethol. Bydd tocynnau ar werth yn y gwesty ddechrau Chwefror — y tocynnau yn angenrheidiol i brynu bwyd basged ac i fwynhau'r adloniant... dim ond cant o docynnau a argreffir, felly — y cyntaf i'r felin gaiff falu!

NOSON O HWYL A CHÂN

yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis
Nos Iau, Chwefror 21ain am 7.30
yng nghwmni

LLEISIAU'R FROGWY

Arweinydd Gareth Glyn BBC

a Leslie Williams (Adroddwr hwyliog)

Tocynnau £5 yr un yn cynnwys bwyd basged ar werth yn y gwesty o Chwefror 7 fed ymlaen i'r cant cyntaf yn unig

Y cyntaf i'r felin gaiff falu...

Manylion pellach ar bosteri yn y fro

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Llongyfarchiadau i Mr Alun Rowlands, 5 Hafan Elan ar gyrraedd ei benblwydd yn 80 oed ar Ionawr 5.



Diolch: Dymuna Mr Alun Rowlands ddiolch o galon am y te parti annisgwyl a drefnwyd iddo yng Nghanolfan Hafan Elan gan Mrs Dilys Jones. Diolch hefyd i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 80. Diolch yn fawr.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Rhagfyr 11, aeth llond bws o'r Aelodau i Westy Bryn Eisteddfod, Clynog i ddathlu'r Nadolig. Fe fwynhaodd pawb y cinio blasus a diolchwyd i'r Ysgrifenyddes Mrs Heulwen Evans a'r Trysorydd Mrs Olwen Huws am wneud yr holl drefniadau gan y Llywydd, Mrs Mary Roberts.

Ar ddechrau ein cyfarfod cyntaf yn 1991, nos Fawrth, Ionawr 8, dymunwyd Blwyddyn Newydd dda i bawb. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn ag un o aelodau ffyddlonaf y gangen Mrs W. A. Jones o golli ei gŵr annwyl. Y gŵr gwadd oedd Mr Dewi Tomos, Rhostryfan. Fe fwynhaodd pawb ei straeon diddorol am Ddyffryn Nantlle. Dangoswyd sleidiau ardderchog o'r Dyffryn a'r Cylch, 'lle mae rhai o anturiaethau'r Mabinogi wedi'u lleoli, stôr o straeon tylwyth teg a hud a lledrith sy'n perthyn i'r ardal, ynghyd ac ambell un am stori serch a rhyfel.' Bu'n sôn am y casgliad o straeon gwerin rhyfeddol Bro Lleu, 'Straeon Gwydion'. Diolchwyd iddo gan Mrs Myfanwy Parry. Trefnwyd y te gan Mary Parry, Cathryn Jones, Alwen Williams a Pat Jones. Diolchwyd iddynt gan Olwen Huws. Cwis, yng ngofal Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarwaun a gawn ym mis Chwefror.

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fawrth y 15fed bu plant yr Ysgol Gynradd yn cynnal noson amrywiaethol o ganu, adrodd, offerynnau prês a recorders, dan gyfarwyddid Mrs Mair Hughes yr athrawes. Llywydd y noson oedd Mrs Mair Humphreys, a thalwyd diolch i'r plant gan Mr Emrys Owen. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 29ain pryd y disgwylir y Parchg John Gillibrand, sef 'Dysgwr y Flwyddyn' i roi annerchiad.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd gwasanaeth carolau yn y Capel Mawr, nos Sul, 23 Rhagfyr o dan

nawdd y Gymdeithas. Llywyddwyd y noson gan y Parchg John Morris, BD, a chymerwyd rhan gan aelodau o gapeli Tan-y-Coed, Bryngwyn, Pontrhythallt a Chapel Mawr.

Nos Fercher, 9 Ionawr cynhaliodd y Gymdeithas Gyfarfod Gweddi. Cymerwyd rhan gan Mrs Beryl Thomas, Mrs Joan Griffiths, Mr

Dymuna Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug, gyhoeddi ei ymddeoliad o Gyngor Bwrdeistref Arfon. Gorfu iddo ymddiswyddo oherwydd ei apwyntiad i swydd newydd, gyda Telecom Prydeinig, a olygai llai o amser iddo ymgymeryd â dyletswyddau cymdeithasol.

Dymuna ddatgan ei ddiolchgarwch am y fraint o gynrychioli cymuned Llanrug ar y Cyngor Dosbarth ac estyn ei ddymuniadau gorau i'w olynydd.

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU



Derbyn yn Gyflawn Aelodau: Ar Sul cyntaf o'r flwyddyn 1991 derbyniwyd pump aelod newydd i Eglwys Iesu Grist yng Nghapel y Bryngwyn.

Derbyniwyd Gwennan Mair Roberts, Dylan Williams, Gerallt Williams, Owain ap Gruffydd a Morgan Ifan ap Gruffydd gan y Parchg Ronald Williams, Salem, Caernarfon, mewn gwasanaeth hyfryd.

Ar ddiwedd y gwasanaeth rhoddwyd cyfle i bob aelod oedd yn bresennol fynegi ei falchder o glywed y bobl ifanc yn tystio i'w crêd drwy ysgwyd llaw â hwy a'u croesawu i fynwes yr Eglwys.

Oswald Davies, Mr J. W. Owen a Mr Alf Parry.

Gwellhad: Dymunir gwellhad buan i Mr Hugh Thomas, Gwenallt, sydd wedi dychwelyd gartref o Ysbyty Gwynedd.

Braf yw gweld Mrs Betty Peris Jones, Egryn Villa, adref ar ôl cymaint o amser yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i Gwyneth, merch Hugh a Gracie Thomas, Gwenallt ar ei llwyddiant yn ennill gradd M.A. Mae'n briod â Dr Peter Davies ac yn byw yn Y Fenni a chanddynt ferch fach Mari.

— i Gwilym a Helen Roberts, Stâd Gwêl Fynydd (Chester House, Deiniolen gynt) ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

— i Nicky Cropper, 3 Bro Rhuddallt, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 3.

— i Adrian Jones, 54 Bro Rhuddallt, oedd yn dathlu ei ben-blwydd cyn y Nadolig.

— i'r Dr a Mrs John Martin, Caerffili ar enedigaeth eu merch fach, Susie, chwaer i Sally, a wyres fach arall i Mr a Mrs Harry Martin, Fair Haven. **Cydymdeimlo:** Cydymdeimlir a Mrs Joan Maxwell, Noddfa, ar farwolaeth ei phriod James Maxwell. Roedd yn aelod o Eglwys Pontrhythallt.

Cydymdeimlir a Mrs Gwladys Jones ar teulu, Y Dalar Deg, Llanrug, ar farwolaeth sydyn Mr W. A. Jones.

Diolch: Dymuna Mrs Betty Peris Jones, ei gŵr Bob, Egryn Villa, ddiolch i bawb a fu yn garedig tuag atynt tra y bu Betty yn yr ysbyty. Diolch i staff Ysbyty Gwynedd, yn arbennig Wardiau Gogarth a Tryfan. Diolch am yr holl gardiau a anfonwyd

i'r ysbyty ac i'r cartref ac hefyd am yr holl alwadau ffôn.

Diolch: Dymuna Mr Robin Parry, 12 Bro Rhuddallt ddiolch i bawb am eu dymuniadau da, rhoddion a chardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Diolch: Dymuna athrawon a phlant Ysgol Sul Capel Mawr ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at eu parti 'Dolig, gan gynnwys Siôn Corn. Daeth 64 o aelodau'r Ysgol Sul i'r parti a chawsant ddigon i'w fwyta a'i yfed, diolch i garedigrwydd y cyfranwyr.

Diolch: Dymuna Mrs Annie Williams, Cartref Henoed Foelas, ac 18 Hafan Elan, ddiolch i bawb a roddodd eu hamser i ddod i ymweld â hi yn y cartref ar achlysur ei phenblwydd yn 88 oed, ac yn ystod gwyliau'r nadolig. Diolch hefyd am yr holl anrhegion a'r llu cardiau. Dymuna hefyd ddiolch i staff y Foelas am eu gofal diflino gydol y flwyddyn.

Plaid Cymru: Er i'r tywydd fod mor oer daeth nifer o aelodau ynghyd i'r cyfarfod olaf, o dan arweiniad Phyllis Ellis, i drafod gweithgareddau diweddaraf Plaid Cymru. Enillwyr y Clwb Cant am fis Ionawr oedd: 1, Jean Walsh; 2, Goronwy Hughes. Rydym fel cangen yn cydymdeimlo yn gywir iawn â Mrs Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod W. A. Jones. Bu W.A. yn aelod ffyddlon a gweithgar iawn o Blaid Cymru yn genedlaethol am flynyddoedd, a bu hefyd yn help i sefydlu a chynnal y gangen yma yn Llanrug.

Estynnwn wahoddiad i'r ardalwyr i gyfarfod nesaf y gangen pan ddaw Frank Green atom i sgwrsio am arlunio. Bydd y cyfarfod yma ar nos Fercher, Chwefror 20, am 7.30 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa.

Cofiwch am y noson i ddathlu Gŵyl Ddewi ar nos Wener, Mawrth 1, yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, pan drefnir Twmpath Dawns a bwyd mewn basged. Bydd y tocynnau ar werth erbyn cyfarfod mis Chwefror. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y ddau gyfarfod.

Plaid Cymru, Llanrug
Sgwrs ar Arlunio gan
Frank Green, Pontrug
Nos Fercher, Chwefror 20
yn y
Sefydliad Coffa Llanrug
am 7.30 o'r gloch
CROESO I BAWB

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



CARTREF
HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Ysgol Gynradd Llanrug: Blwyddyn Newydd Dda i bawb a chyn llwyr anghofio am yr Ŵyl rhaid diolch i bawb am gymryd rhan yn y Gwasanaeth Nadolig. Casglwyd swm anrhydeddus o £150 tuag at Hospis yn y Cartref, diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Braf oedd gweld plant y pentref yn cymryd rhan yn y cynhyrchiad 'Dryw yn y Drain' a welwyd ar y teledu yn ystod y Nadolig. Llongyfarchiadau iddynt ar eu perfformiadau graenus.

Mae gwaith y tymor wedi hen ddechrau erbyn hyn. Bu Safon 2 yn ymweld â Stiwdio Barcud a Stiwdio Sain fel rhan o'u gwaith ar drydan. Tra ym Marcud cawsant gyfle i fod yn sêr y cyfryngau am ychydig gan eistedd yn sêr 'Sgorio' a 'Nos Sadwrn'. Chawson nhw ddim cyfle i dorri record yn Sain hyd yma!!

'Cartrefi' yw thema Dosbarth Derbyn a daeth Mr Huw John Hughes i ddangos sleidiau diddorol am gartrefi anifeiliaid.

Bu nifer o'r plant yn diddori Cymdeithas Undebol Capel Pont-rhythallt yn ddiweddar. Cafwyd nifer o eitemau adrodd, canu, cerdd dant a canu'r piano.

Fe wyddom yn iawn am ddawn Mrs Mai Davies, ein cogyddes, am goginio a does dim angen tystysgrif i brofi hynny, ond dyna gafodd Mrs Davies yn ddiweddar am lwyddo mewn arholiad am lanweithdra a choginio. Llongyfarchiadau, da iawn, Anti Mai.

Daeth llwyddiant i ran y tîm pêl-droed 5-bob-ochr yng ngornest yr Urdd ym Mangor. Daethant yn ail yn eu grŵp ac yn drydydd yn y gystadleuaeth. Aelodau'r tîm oedd Eifion, Owain, Ieuan, Dyfan, Daniel a Meilir.

Diolch: Dymuna Mrs Gwladys Medwen Jones, Y Dalar Deg, ddiolch o galon i gyfeillion, cymdogion a theulu am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad pan fu farw ei phriod, W. A. Jones, ar y 6ed o Ionawr, maent yn rhy niferus i'w henwi. Diolch arbennig i'r Parchg Huw Gwynfa Roberts a'r Parchg Bryn Williams am gymryd y gwasanaeth, ac i'r Parchg John Morris, a fethodd a bod yn bresennol oherwydd gwaeledd, am ofalu am daflen y gwasanaeth yn y capel. Diolch hefyd i feddygon Llanberis a'u staff yn Llanrug am eu gofal, ac i'r ymgymerywyr E. W. Pritchard a drefnodd mor urddasol.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

W. A. Jones

Ganed W. A. Jones yn Llundain, yn fab i Mr a Mrs G. W. Jones; ei dad o Glwt y Bont (teulu Coed Helen) a'i fam o Flaenau Ffestiniog. Fe'i magwyd ar aelwyd Gymraeg yn ninas Llundain. Yr oedd ei dad yn un o arloeswyr Eglwys Lewisham.

Wedi gweithio mewn swyddfa llongau yn Llundain, fe'i symudwyd i Lerpwl i weithio gyda'r un cwmni. Bu'n aelod yn nghapel Stanley Road, ac yn weithiwr dros heddwch — yn ysgrifennydd Undeb Cynghair y Cenhedloedd Unedig ar lannau Merswy. Oherwydd ei ddaliadau heddychol, fe'i hanfonwyd i weithio ar y tir; hynny wedi treulio cyfnod yn y Frigad Dàn yn Lerpwl adeg y bomio. Yna bu'n gweithio gyda'i dad-yng-nghyfraith, Tom Jones, Tyddyn Rhuddallt cyn ymuno a'r Weinyddiaeth Amaeth yng Nghaernarfon. Fe'i symudwyd yn ddiweddarach i Gaerdydd, ble bu'n Swyddog Diogelwch ar y Fferm yn siored Morgannwg a Mynwy. Dychwelodd i'w annwyl Arfon yn 1962.

Yr oedd yn Gymro pybyr, ac yn aelod blaenllaw o Blaid Cymru wedi ymddeol o'i waith.

Ysgrifennai i'r wasg yn gyson, a dywedai Dafydd Wigley fod llythyrau W. A. Jones wedi bod yn help mawr i'r achos dros Gymru. Yr oedd yn un o arloeswyr Rheilffordd Llyn Padarn, a chafodd gefnogaeth llawer iawn o bobl leol — o fechgyn ysgol i rai llawer hŷn — yn y fenter. Ei amcan oedd nid yn unig creu elw, ond i greu gwaith i bobl leol.

Bu'n gynghorydd cymuned yn Llanrug am flynyddoedd, a chymerai ddiddordeb yn y Seindorf. Yr oedd capel Pont-rhythallt yn agos iawn at ei galon, ac ar un cyfnod bu'n flaenor ac athro Ysgol Sul yno. Yr oedd yn aelod o Glwb Eryri ers rhai blynyddoedd, a dywedai y byddai'n cael aml i seiat yno. Cadwodd ddiddordeb ym mhopeth a darllenodd yn helaeth.

Yr oedd iddo gysylltiadau teuluol a Phatagonia, a gofalai fod copïau o *Eco'r Wyddfa* yn cyrraedd yno. Bu'n gefnogol i waith y papur bro ar hyd y blynyddoedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Gwladys M. Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

Anrhegu'r Clwb Pêl-droed



Susan Morris, Gwenmon, Llanrug yn cyflwyno pêl-droed i Bryn Davies, Ysgrifennydd y Clwb, ar ran ei thad, Selwyn Morris.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Gwellhad buan i Mr R. Blanchard a Kelly Roberts, mae'r ddau wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Morgan Griffith, 19 Llwybr Main, Mynydd Llandegai, ŵyr 10 oed i Mr a Mrs Gwilym Hughes, Oerddwr, ar ei lwyddiant yn ennill mewn cystadleuaeth genedlaethol a drefnwyd gan UNICEF. Y dasg oedd cynllunio cerdyn Nadolig ar gyfer 1991. Gwobr yr enillydd oedd gwerth £100 o ddefnyddiau celf, ac yn bennaf oll cael gweld ei gerdyn ar werth fel cerdyn Nadolig swyddogol UNICEF, Nadolig 1991. Da iawn Morgan — mwy o lwyddiant eto i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd mae Mrs Hughes, nain Morgan, yng nghartref preswyl Cooper Field, Llandudno, ac yn disgwyl mynd i Ysbyty Gobowen am lawdriniaeth, ein cofion ati a'n dymuniadau gorau am adferiad buan.

Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul: Pnawn Sul, 23 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Tan-y-Coed. Cafwyd eitemau i ddathlu'r Ŵyl gan athrawon a phlant yr Ysgol Sul a daeth cynulliad da ynghyd i'w cefnogi. Yn yr Ysgol Sul yn y bore derbyniodd y plant bob un ei anrheg Nadolig.

Newydd calonogol: Geneth fach bedair oed yn yr Ysgol Sul y Sul diwethaf, pedwar oen bach wedi ei geni ar ei fferm — newydd gobeithiol ynghanol newyddion anobeithiol ein byd: 'If winter comes, can spring be far behind?' Ŵyn bach yn cael eu geni, Tlws yr Eira dewr yn herio'r tywydd garw, yn codi dyhead yng nghalon dyn am weld ein byd yn wynebu gwanwyn newydd yn ei hanes, wedi'r tywyllwch dudew mae ynddo yn awr.

Gofyn i'r eneth fach, 'Pwy sy'n helpu Dad i edrych ar ôl y defaid a'r ŵyn?'. A'r ateb, 'Pawb'. Onid dyna'r ateb i'n byd — pawb i helpu i adeiladu ac nid i ddinistrio.

'O enau plant bychain. . .'

HWYL A FFLAG

yn cyflwyno

CODI'R HWYL IV

Mawrth 9—16, 1991

Bwrlwm o weithgareddau theatr dros gyfnod o wythnos gyfan! Cysylltwch â Hwyl a Fflag, Bangor 351140 am fanylion pellach.

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Bentref: Dymuna'r pwyllgor ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd at bartion Nadolig Clwb yr Heulwen a'r plant. Byddwn yn falch o unrhyw gymorth i hyfforddi'r plant at gystadleuthau Eisteddfod yr Urdd eleni eto. **Rhaglen mis Chwefror:** 5, Fideo; 12, Gemau; 19, Sleidiau — gyda Miss Phyllis Elis; 26, Noson yng ngofal Mr Richard Ll. Jones, Bethel.

Gwellhad: Y mae amryw yn y pentref yn dioddef o'r fflw neu annwyd. Dymunir adferiad buan i chwi. Gobeithio fod y canlynol yn well wedi'u triniaeth yn yr ysbyty: Mrs Roberta Griffith, Tony Griffith, Mrs Dorothy Parrot, Mr Dafydd Morris a Mr Hughie Williams. Gobeithio fod Mrs M. Rees Thomas hithau yn gwella anfonwn ein cofion atoch chwithau hefyd, a'r un modd at Mr Iorwerth Thomas, Bron y Gaer.

Longyfarchiadau: Pob dymuniad da a phob bendith i Gwenllian Parry a Dylan Edwin Jones ar achlysur eu pen-blwydd yn 21ain oed. Pob hapusrwydd i Gwenllian a Carol a'r teulu oll, ar enedigaeth Efa.

Gair o Ddiolch: Dymuna Emyr Williams, Glyn Euron, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogaion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed ar 17 Rhagfyr.

Ysgol Sul Bosra: Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y plant, b'nawn Sul, 23 Rhagfyr am 2. Diolchir i'r plant o'r ieuengaf i'r hynaf am wneud eu gwaith mor dda. Diolchir hefyd i'r athrawon i gyd am eu gwaith di-flino fel hyn bob blwyddyn. Cafwyd anerchiad hyfryd gan Merfyn Jones ynghyd â chanu nifer o garolau adnabyddus.

Oherwydd eu ffyddlondeb, mwynhaodd y plant barti Nadolig ardderchog yng nghwmni aelodau Ysgol Sul Santes Helen, a'r gŵr ei hun, Siôn Corn. Rhoddodd anrheg ac afal ac oren i bob plentyn a gair bach addfwyn yng nghlust pob un. Ni allai ymuno yn y canu gan ei fod wedi colli'i lais swynol wrth ganu mewn amrywiol lefydd. Diolchir i Siôn Corn am ymweld â'r plant ac am y geiriau caredig a fyrlymai drwy'r locsyn coslyd! Diolchir hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y parti.

Pwyllgor Neuadd Bentref: Aeth rhai o aelodau'r pwyllgor ynghyd â phobl ifanc a phlant y pentref o gwmpas i ganu carolau, nos Wener, 21

Rhagfyr, gan gychwyn o Lys y Gwynt am 6. Er ei bod yn noson oer a gwyb, casglwyd £32.74 at Gronfa'r Neuadd a diolchir i ambell un am lymaid i'n cynhesu. Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr yn Sycharch. Yr enillwyr oedd: Ceren Jones, Camelot, Ron Hughes, Brynhyfryd a Siân a Bethan, Caernarfon. Gwnaed elw o £26 gyda Webb Ivory. Diolchir i Phyllis Elis am gasglu'r archebion. Tynnir Clwb Cant Ionawr yn Noson Santes Dwynwen a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch. Y beirniad fydd Mrs Mair Huws, Llanrug.

Tynnir Clwb Cant Chwefror yn Sycharth, nos Fercher, 27 Chwefror am 6.30. Trefnir Raffl Wanwyn ar gyfer Chwefror, Mawrth ac Ebrill. Tynnir y Raffl ar 26 Ebrill yn Neuadd yr Eglwys mewn Noson Gymdeithasol yng nghwmni aelodau'r Urdd. Bydd llyfrau ar werth gan aelodau'r pwyllgor ac os dymuna unrhyw un ein helpu i werthu'r mil o lyfrau byddwn yn falch iawn o'ch help gan fod trefniadau ar gychwyn yr Ysgol Newydd yn agos iawn. Os dymuna unrhyw un ymuno â Chlwb Cant Pwyllgor y Neuadd, cysyllter ag unrhyw un o'r aelodau neu 872407, 50c y mis neu £6 y flwyddyn.

Eglwys Santes Helen:

Fel Eglwys yr ydym yn cydymdeimlo â theulu y diweddar Gwir Barchedig Ddr Gwilym Owen Williams, cyn Archesgob Cymru a fu farw ar 23 Rhagfyr, 1990. I drigolion Penisarwaun, erys yn y cof fel Gwilym Siop, gan mai yn y Waun, ar gyrion y pentref y codwyd y cawr o Gymro hwn. Bu'n offeiriad mewn sawl plwyf yng Nghymru cyn ei benodi yn Esgob Bangor ym 1957. Ym 1971 cafodd ei ddyrchafu yn Archesgob Cymru a daliodd y swydd honno'n anrhydeddus tan 1982, pan ymddeolodd i fyw yng Nghricieth. Claddwyd ei lwch yn y Gadeirlan ym Mangor yn ymyl llwch ei ddiweddar wraig Megan.

Yr Ysgol Sul: Mae gweithgareddau yr Ysgol Sul wedi cychwyn eto ar ôl y Nadolig. Gwerthfawrogn fel Eglwys waith Sioned Lewis, Penpwlloch fel athrawes, a diolch i Mrs Alwena Leadbetter am ei chymorth yn absenoldeb trwy waeledd y Warden Mrs Roberta Griffith. Prif waith y plant yn awr fydd paratoi ar gyfer yr Wyl Gorawl a gynhelir ar 12 Mai. Bydd arholiadau

'HAIA JIWCS'

MICI PLWM YM MHARTI CALAN

PLANT YSGOL TAN Y COED



Ysgol Tan-y-Coed: Yn dilyn dathliadau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd dychwelodd y plant i'r ysgol yn llawn brwdfrydedd, gan edrych ymlaen at weithgareddau'r tymor. Yn eu plith roedd Samuel Horlick a Justin a Victoria Williams a dreuliodd dymor y Nadolig yn yr Uned Iaith ym Maesincla. Braf iawn oedd darganfod eu bod wedi cael gafael dda ar y Gymraeg a'u bod yn fwy na pharod i'w defnyddio.

Parti Calan: Ar ddiwedd yr wythnos gyntaf cynhaliwyd Parti Calan yr ysgol. Trefnwyd y parti gan Gyfeillion Tan-y-Coed a bu nifer o rieni yn brysur yn paratoi y danteithion ac yn gosod y byrddau yn ddeniadol, tra 'roedd y plant yn gwylio fideo o Syr Wynff a Plwmsan. Wedi iddynt orffen bwyta, er mawr syndod i'r

plant, rhuthrodd Plwmsan i mewn i'r ystafell. 'Roedd yr edrychiad ar wynebau'r plant lleiaf yn werth ei weld! Ar ôl sgwrs ddifyr a doniol, rhannodd Plwmsan yr anrhegion Calan a brynwyd gan y Cyfeillion. Cafodd pawb gyfle i fynd ato, gan ysgwyd llaw neu dderbyn 'sws glec', neu dynnu coes diniwed. Fe gafodd y plant, rhieni ac athrawon b'nawn bythgofiadwy yn llawn sbort a sbri yng nghwmni Mici Plwm. Diolchir iddo am ddod, a hynny yr holl ffordd o Gaerdydd. Ei ffi — platiad o jeli coch blasus a phaned o del Diolch yn arbennig i Haf am baratoi y jeli. Mawr y diolch hefyd i Mrs Myfanwy Parry ac Eifion Harding am wneud y trefniadau a sicrhau p'nawn i'w gofio a dechrau hapus i'r flwyddyn 1991.



Mrs M. J. Roberts, Llys y Gwynt yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

ar y Maes Llafur yn cael eu cynnal ar Sul, Ebrill. 21

Gair o Gysur: Anfonwn ein cofion dyfnaf a dwysaf at gyfeillion o'r pentref hwn a'r fro hon sydd â bechgyn a merched dewr yn ymladd yn y Gwlff. Duw a fo'n gymorth i chwi oll.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

GRADD ALLANOL

Prifysgol Cymru

Mae Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig cynllun i oedolion sy'n dymuno dilyn cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r Coleg. Gellir astudio'r pynciau a ganlyn: Cymraeg, Hanes Cymru, Drama, Addysg, Cerddoriaeth, Llydaweg, Astudiaethau Crefydd.

At hyn, cynigir cwrs Cymraeg Rhan Un ar gyfer dysgwyr.

Os carech dderbyn rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun, a ffurflen gais, cysylltwch â:

A. Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol,
CPC Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth
(Ffôn 0970-622049/50).

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolchiadau: Dymuna Mrs Bessie Ellis ddiolch o galon i bawb a fu yn ymweld a Mr William Ellis yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli dros gyfnod y Nadolig. Mae'r teulu i gyd yn gwerthfawrogi pob arwydd o gyfeillgarwch sydd yn cael ei ddangos.

Llongyfarchiadau i Caryl Owen, Cadnant ar ei llwyddiant yn yr arholiad piano Gradd 2. Llwyddodd Caryl, sy'n ddisgybl i Mrs Ilyd Jones, Rhos Isaf, i basio'r arholiad gyda merit.

— i Gail Warrington, Wern Bach, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 26 Rhagfyr.

— i Rhian Hughes, Siabod, a oedd yn dathlu ei 18fed pen-blwydd.

— i Llinos a Dewi Hughes, Glyn Trefor ar enedigaeth mab, Dylan.

— i Dennis a Gwyneth Speake, Ty'n 'Rardd ar enedigeth merch fach.

Yr Urdd: Cychwynodd y tymor gyda noson o chwaraeon yng nghwmni Richard a Mary Lloyd Jones. Yr wythnos wedyn fe ddaeth un o'r swyddogion datblygu, Dei Williams atom, i ddangos ffilm o'r ddau wersyll, Llangrannog a Glanllyn, i'r plant ieuengaf. I ddiddori'r plant hyn fe ddaeth a *parashiwt* mawr a chwarae gemau. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd iddo gan Ellen Robinson ar ran y rhai ifainc, ac Ellen Jones ar ran y rhai hyn. Hwn yw tymor Eisteddfodau'r Cylch a'r Sir, ac y mae nifer fawr o aelodau'r gangen wedi ymuno â gwahanol weithgareddau fel dawnsio gwerin, dawnsio disgo, corau adrodd, côr a phartion canu. Os oes unrhyw aelod yn dymuno cystadlu yn unigol, mae'r enwau i fod i mewn i Ysgrifennydd y gangen, Glenys Griffiths, erbyn 8 Chwefror. Cewch gyfle i glywed rhai o'r eitemau yn y Noson Goffi ar 2 Mawrth.

Neuadd Goffa: Tynnwyd y Raffl Nadolig nos Lun, 17 Rhagfyr yn y Neuadd. Y enillwyr oedd — Twrci (rhodd Mrs Bilby, St. Teilo): Mary Evans, Swyn Eryri; Whisgi (Mrs Bilby, St. Teilo): Helen Roberts, Gwyndre; £10 Petrol (Garej Minffordd): Meilyr Emrys, Bethel; £10 Petrol (Garej Minffordd): Margaret Williams, Fferm Cefn; Bocs Siocled (Treflyn Stores): R. Rowlands, Lairds, Beaumaris; Potel o Vodka (Y Bedol): Gardd Ffynnon, Bethel; Cynrych Llaethdy

(Gwilym Williams): Caryl Owen, Cadnant, Bethel; Potel o Win (Gors Bach): Brian Owen, Cyngor Arfon; Bocs o Nwyddau (Swyddfa'r Post, Bethel): Richard Evans, Swyn Eryri; Nwyddau Addurno (Miss Nia Griffiths): Irfon Hughes, Fferm Cae Rhos, Bethel; Bocs o Cracers (Mrs Eleri Warrington): Miss D. Suds, 14 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon; Bocs o Cracers (Mr a Mrs Gwyndaf Williams): Morlais Williams, Arfon House, Bethel.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd wobrau tuag at y Raffl.



Catrin Lambrecht yn cael bath yn nosbarth babanod-canol Ysgol Bethel. Mae Catrin yn dri mis oed, ac roedd yn mwynhau'r ymweliad cymaint ag a wnaeth y plant.



Charles Bent a'i ffrindiau yn arddangos 'Barwnol Boggy Bo' a ennillodd y ci bach gorau yn y brîd yn Sioe Canmlwyddiant Cruft yn ddiweddar. Mae Charles yn helpu ei fam, Mrs Wendy Bent, o Tan y Coed, Llanrug, i edrych ar ôl cŵn y teulu. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Bethel.

Clwb y Rhos: Cafwyd noson ddiffr o Seiat Holi gyda Mr J. E. Thomas yn y gadair a'r Mri Siencyn Griffiths, Ieuan Williams a Geraint Elis ar y panel. Cafwyd trafodaeth fywiog a dwys ar brydiau ar faterion yn amrywio o'r argyfwng yn y Gwlff i effaith agor tafarn ar gymdeithas y pentref.

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Ionawr cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Mrs Jane Jones, Y Felinheli. Rhoddodd Mrs Jones sgwrs ar effaith y symudiad i fwyta'n iach ar y ffordd o dorri oen ar gyfer ei fwyta. Roedd Mrs Jones wedi dod ac oen gyda hi i ddangos sut yr oedd yn cael ei dorri i roi darnau gyda llai o asgwrn a llai o fraser. Diolchwyd i Mrs Jones gan Ceinwen Williams, Cefn Gwyn. Sylwer y bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 6 Chwefror. Bydd cangen Pen-y-groes yn ymweld â changen Bethel ac fe drefnwyd noson o Gwis, dan ofal Richard Lloyd Jones, ar gyfer yr ymweliad.



Gareth Birkett o Ysgol Bethel a fu yn actio rhan Hywel yn y ddrama 'Llygad Hacky Basham' ar S4C dros y Nadolig.



Anwen Thomas o Ysgol Bethel a ddaeth yn drydydd mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon.

Cwch Newydd i Ynys Enlli

Apêl ar ran Ymddiriedolaeth yr Ynys

Dros y blynyddoedd mae llawer iawn o bobl wedi ymweld ag Enlli i brofi'r naws arbennig sydd yno, eraill ar wyliau ychydig bach yn wahanol mewn lleoliad llawn hud. Mae rhai yn mynd yno i ail afael mewn iechyd ag ysbryd, eraill ar bererindod neu encil grefyddol. Y bywyd gwyllt sydd yn denu rhai, ac mae ysbrydoliaeth yno hefyd i arlunwyr a beirdd. Ychydig iawn sydd wedi cael eu siomi, ac mae'r rhan fwyaf yn dychwelyd i'r tir mawr wedi eu hadfywio ar ôl aros a phrofi o awyrgylch heddychlon yr ynys. Gobaith Ymddiriedolaeth Ynys Enlli yw y bydd yr ynys yn dal i allu sicrhau hyn am ddegawdau i ddod.

Mae'r cwch, *Bugail Enlli II*, wedi rhoi gwasanaeth da i ni ond mae'n angenrheidiol erbyn hyn ein bod yn prynu cwch newydd fydd yn cyfarfod â'n gofynion ac â safonau yr Adran Drafnidiaeth a'r Gymuned Ewropeaidd Sengl. Ein dymuniad yw cludo pobl i Enlli yn ddiogel ac yn effeithlon.

Yn dilyn trafodaethau helaeth, penderfynodd Cyngor yr Ymddiriedolaeth ar y cwch mwyaf addas ar gyfer ein anghenion, fydd, gan gynnwys y cyfarpar addas, yn costio tua £60,000. Daw rhan o hyn o werthiant y *Bugail Enlli II*, ond rhaid i'r rhan helaeth ddod o roddion a chyfraniadau.

Gobeithio y bydd modd i chwi gymryd rhan ymarferol mewn sicrhau fod pobl yn cael ymweld ag Enlli am genedlaethau i ddod. Anfonwch eich rhodd, wedi ei nodi APÊL Y CWCH, os gwelwch yn dda, yn uniongyrchol at **Y Trysorydd, Gareth Ogwen Jones, 37 Stryd yr Eglwys, Beaumaris, Ynys Môn, Gwynedd**. Bydd cydnabyddiaeth o'r holl roddion mewn llyfr arbennig fydd yn cael ei gadw ar yr ynys.

DIWAITH?

BETH AM GREU EICH GWAITH EICH HUN
A BOD YN HUNAN-GYFLOGEDIG?

Dewch i drafod y posibilrwydd a gweld pa gymorth sydd ar gael yn

SWYDDFA GWASANAETH CYFLOGI
CAERNARFON

CHWEFWROR 12, 13 a 19, 20

MENTER GWYNEDD (0248) 750777
Cyfle cyfartal i bawb

ROYAL
VICTORIA
HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



CHWILOTA

Trên y Chwarel yn Cario Glo!



Anfonwyd toriad papur newydd i ni gan Mrs Ceinwen Roberts, Tan y Coed, Llanrug. Mae'n dyddio o 1942, ac yn adrodd hanes atgofion hen wraig 93 oed oedd yn byw yn Craig y Dinas — Mrs Ruth Jones.

Fe'i ganed yn 1849, yn ferch i Owen Jones, giard ar drên y chwarel. Cafodd ychydig o ysgol yn Bryn Eryr, Llanrug ac yna yn Neiniolen, cyn gadael yr ysgol yn ddeuddeg oed. Roedd ganddi gof plentyn o Ddiwygiad Crefyddol 1859, ac fel y byddai trigolion ardal Craig y Dinas a Phenisarwaen yn cyfarfod yn y Coed Mawr, ger fferm Tan y Coed, i ganu emynau hyd oriau mân y bore.

Ar ôl priodi, symudodd i fyw i Gaergybi, ac yna i Amlwch, cyn dychwelyd i Graig y Dinas, a chadw busnes groser ym Mhontrhythallt.

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â'i hatgofion yw'r ffaith ei bod yn cofio trên y chwarel yn cario glo o'r Felinheli i drigolion Llanrug a Llanberis — a hynny cyn adeiladu'r rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis. Byddai'r glo yn cael ei ddanfôn yn achlysurol yn hytrach nac yn rheolaidd, ac yn cael ei ddadlwytho mewn iard yn Craig y Dinas. Gŵr o'r enw John Morris, Fron Hywel oedd yn gyfrifol am yr iard lo, ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am weithio sustem y 'points' ar y rheilffordd. Y fforman oedd Ellis Hughes, Cwm y Glo, a byddai'n cyrraedd ei waith bob dydd mewn cwch o'r Aber ar draws y Seiont i'r Stablau.

Pan fyddai llwyth o lo yn cyrraedd ar y trên, byddain ddiwrnod mawr i'r plant, oherwydd roedd siawns am ennill ceiniog neu ddwy. Deg ceiniog neu swllt y cant oedd pris glo bryn hynny, a byddai rhai o'r 'bobol fawr' yn prynu llond trol ar y tro. Byddai'r plant yn rasio i gartrefi'r 'byddigions' i roi gwybodaeth iddynt fod y glo wedi cyrraedd, ac yn cael gwobr am fod y cyntaf gyda'r neges.

Roedd Mrs Jones yn cofio amser pan nad oedd ond rhyw bump neu chwech o dai yr holl ffordd o Bontrhythallt i Sgwâr y

Post, Llanrug, sef Pen y Bont, Pen y Bont Bach, Tal y Bont, Fron Hyfryd, Penrhosddu a Tŷ Clwb.

Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth am Ruth Jones ac am ei siop groser ym Mhontrhythallt. Efallai fod rhai o'i theulu yn parhau i fyw'n yr ardal. Beth am lun ohoni? A phwy tybed oedd John Morris, Fron Hywel ac Ellis Hughes, Cwm y Glo? Cofiwch anfon gwybodaeth. Mae'n bwysig cofnodi pob gwybodaeth am hanes ein bro.

Diolch i Dafydd Guto am ei ymateb i ffotograffwyr y cardiau post; gweler ei lythyr ar dudalen 2.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Bistro

43-45
Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn 871278



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Tynfa Nadolig: Enillwyr y Tynfa Nadolig oedd: Gwin (rhodd Deiniol Hughes), Cartref; Siocledi (Ifor Hughes), 6 Brynteg; Jariau piclo (Garej Caeathro), Llysgele; Gwin (Clive Jones), 10 Glangwna; Siocledi (Edgar Owen), Cae Hensyn; Gwin (Eric Roberts), 10 Erw Wen; Porc (Toni Griffith), 7 Erw Wen; Gwin (Cefn Gof), 4 Glangwna. Mae aelodau'r Pwyllgor Cae Chwarae yn dra diolchgar am y rhoddion ar gyfer y gwobrau ac am gefnogaeth y prynwyr.

Canu Carolau: Gan fod y tywydd yn ofnadwy (unwaith eto), siomedig iawn oedd y gynulleidfa yn y Ffestri ar gyfer y noson o ganu carolau gyda Band Ieuencid Llanrug. Ar ôl canu a gwranddo roedd mins peis Olgan Evison, Cae Hopsyn yn flasus iawn. Diolch i bawb am gyfrannu i'r noson.

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr ar 3 Ionawr. Bydd Cyngor Arfon yn gosod bin sbwriel newydd ger y sedd er mwyn ceisio cadw'r pentref yn ddaclus. Mae'r heddlu wedi addo ceisio atal ceir wrth-barcio ar y glirffordd heibio Tyddyn Alice. Yn ddiweddar bu llai o geir yn rhwystro cerbydau mwy rhag pasio ar hyd y lôn ger Tai Brynteg, gan gynnwys injan dân ar ddydd Calan. Dechreuwyd gwaith ceisio gwella llwybr Prysgol. Ar ôl pwysau oddi wrth y Cyngor y mae Cyngor Gwynedd wedi torri'r gwair ar yr ynys ger y garej.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Arfon bwyso i wella golwg y cytiau moch ar ochr gogledd-ddwyreiniol yr ynys.

Gwasanaethau y Capel: Ar ddechrau 'Degawd Efengylu' pregethwyr yng nghapel y pentref yn ystod mis Chwefror, am 2 y prynhawn, fydd: 3, J. Jones Parry; 10, Dafydd Iwan; 17, Ll. Madog Jones; 24, H. Gwynfa Roberts; 3 Mawrth, William Jones.

Llongyfarchiadau i Gareth Glyn Jones, Llety'r Wennol, ar gael ei ethol yn 'fyfyrwr y flwyddyn' yng Ngholeg Pencraig.

Ger y Tân: Cafwyd cinio Nadolig bendigedig yn Nhafarn Ty'n Llan. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher olaf y mis ym Montnewydd.

Cydymdeimlwn â Mr Roberts, Cefn Rhos, yn ei brofedigaeth.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Capel: Pnawn Sul, 23 Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r Nadolig dan ofal y Parchg John Morris ac a drefnwyd gan Mrs Eirlys Ellis. Cymerwyd rhan gan Dylan Thomas, Ffion Williams a Nicola Jones.

Gwellhad: Dymunwn wellhad buan i Mr Evie Davies, Tan-y-Graig sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn: Nos Iau, 20 Rhagfyr, yn y Ganolfan, cafwyd noson lwyddiannus iawn o ganu carolau, wedi ei threfnu gan aelodau'r Gymdeithas. Roedd digon o bwnsh a mins peis ar gyfer pawb, a stondinnew amrywiol.

Dymuna'r Rheithor, Parchg P. Pritchard a'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a ddaeth draw ar noson mor stormus a rhoi cefnogaeth, ac i bawb am helpu i drefnu, ac yn ystod y noson.

Enillwyr Clwb Cant Ysgol Dolbadarn: £25, Mrs C. Allsup, Ceunant St., Llanberis (143); £15, Mr V. Jones, Maenol, Pen y Bryn Rd., Caernarfon (013); £10, Ann Jones, 34 Stryd Newton, Llanberis (160).

Clwb y Mamau: Yng Nghlwb y Mamau ar nos Fercher, 9 Ionawr, cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mr B. Eaglestone o Rosgafan yn dangos sleidiau ac yn

adrodd ei hanes yn danfon cymorth i Romania. Os oes rhywun am gysylltu â Mr Eaglestone gellir gwneud hynny ar rhif ffôn 830093.

Diolch: Dymuna Helen Thomas, 41 Dôl Elidir, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdigion, am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

— Dymuna teulu y diweddar John Alwyn Pritchard, 11 Stryd Ceunant, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

— Dymuna Mrs Yvonne Lovell a theulu y diweddar Charles E. Lovell ddatgan eu gwerthfawrogiad i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Miss Ann V. Evans, 15 Stryd Fawr, Llanberis, ar ei llwyddiant yn yr arholiadau nyrsio.



Tim pêl-droed Ysgol Dolbadarn yn eu dillad newydd. Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Rory O'Donnell, Lee Hughes, Marc Davies, Edryd Sharp, Ian Ellis, Liam O'Donnell, Aled Closs Davies. Rhes flaen: Adam Rudkin, Dafydd Williams, Iestyn Jones, Gareth Jones, Rheon Roberts ac Alwyn Jones. Codwyd yr arian yn bennaf trwy ymdrechion plant yr ysgol, gan gynnwys rhai sydd bellach yn Ysgol Brynrefail gyda rafflau, byrddau gwerthu ac yn y blaen.

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon. Ffôn: 871457

Gwellhad: Da yw deall fod Alan Pritchard wedi gwella ac wedi dychwelyd yn ôl i'r ysgol. Gwella hefyd y mae Thomas Bleddyn ar ôl ei ymweliad â'r ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlo: Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Mrs Ann Griffith, Emma, Gwen a'r teulu oll yn

eu profedigaeth o golli gŵr, tad a brawd annwyl, sef Mr Tecwyn Griffith a fu farw 11 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Peris ar 15 Rhagfyr.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Yvonne Lovell yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr Mr Charlie Lovell yn ddiweddar.

Eisteddfod Bro Delyn 1991

Cystadleuthau'r Adran Ieuencid

Cofiwch am y cystadleuthau cyfansoddi a pherfformio diddorol yn yr Adran Ieuencid eleni — mae'r gwobrau yn hael iawn. Er enghraifft: £600 am gyfansoddi cân, unrhyw gyfrwng, geiriau a cherddoriaeth wreiddiol a'r cyfeiliant a'r alaw wedi ei chyflwyno ar dâp neu yn ysgrifenedig.

Am ragor o fanylion mynnwch eich Rhestr Testunau a ffurflenni cais o:

**Swyddfa'r Eisteddfod,
Tŷ Dewi Sant,
24 Stryd Fawr,
Yr Wyddgrug,
Clwyd CH7 1AZ.**

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR HENOED

Eleni am y tro cyntaf erioed trefnir Eisteddfod Genedlaethol i Bensiynwyr Cymru. Dyma gyfle i ni lwyfannu a dangos ffrwyth talentau'r pensiynwyr.

Gwahoddwn bawb sydd â diddordeb i gefnogi'r fenter newydd yma a sicrhau fod yr Eisteddfod arbennig yma yn mynd i fod yn ddisgwyddiad blynyddol o hyn ymlaen.

Ceir copïau o'r Rhaglen gan Cyngor Henoed Cymru, neu siop lleol Byrddau Trydan MANWEB, neu Drydan De Cymru, ein noddwyr.

Cynhelir eich Eisteddfod Lleol yn Theatr Seilo, Caernarfon, ddydd Sadwrn, Mai 11. Felly mynnwch eich rhaglen yn ddi-oed.

Cewch fanylion pellach gan Gyngor Henoed Cymru, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF1 9SD.

DATHLU'R CANT

Ar Ionawr 18fed, dathlodd Mrs Menai Williams, Bron Gwyrfa, Rhyd-Ddu ei phen-blwydd yn gant oed. Fe'i ganed yn y 'George' ar lannau'r Fenai ym Mangor (cartref y Coleg Normal), ond symudodd y teulu i fyw i Lerpwl, ac yno y cyfarfu a'i phriod, Tom Williams. Bu'r ddau yn aelodau o gapel Stanley Road, ac yn weithgar gyda digwyddiadau cymdeithasol y capel. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bomiwyd eu cartref, a bu'n rhaid iddynt adael y ddinas, gan ymgartrefu yn Bron Gwyrfa. Yr oedd Mrs Williams yn aelod selog yng Nghapel Rhyd-Ddu nes iddo gau rai blynyddoedd yn ôl. Derbyniodd lu o gardiau, a chafwyd parti pen-blwydd yn y cartref gydag aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau a chymdigion.



Pan alwodd gohebydd yr Eco yno fore Sadwrn, roedd y gacen ben-blwydd bron iawn wedi diflannu! Llongyfarchion yr Eco i chwi Mrs Williams.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU
— TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel

PORTDINORWIG 671009

TACSI CARIAN

- ★ Pell ac agos
- ★ Stesion, Maes Awyr, Porthladd
- ★ 24 awr y dydd

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd


DEINIOLLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

ECO'R IFANC

1, coch; 2, glas golau; 3, oren;
4, brown; 5, gwyrdd tywyll;
6, pinc; 7, gwyrdd golau;
8, melyn; 9, glas tywyll.



CORNEL JÔCS

Helo Mrs Jones, dydw i ddim wedi eich gweld chi ers tro byd? Naddo Doctor. Rydw i wedi bod yn sâl.

Beth sydd byth yn gofyn cwestiwn, ond mae'n rhaid i chi ei ateb? Teliffon!

Doctor! Doctor! Dwi wedi torri 'nghoes. Beth wna' i? Hopian.

Doctor! Doctor! Dw i angen sbectol newydd? Dw i'n gwybod Mrs Jones - y cigydd ydw i!

Beth sy'n ddu a gwyn a sbotiau coch? Pengwin hefo frech goch!

Be sy'n fawr, binc ac yn dweud 'atishw'? Mochyn hefo anwyd.


Beth wyt ti am wneud pan fyddi di mor fawr a dy dad? Mynd ar ddeiet.

Glywsoch chi am y bachgen oedd o hyd yn dynwared adar? Mae o'n bwyta pryfaid genwair!

Beth wyt ti'n galw orang utan 3,000 pwys? Syr!!

Pa fath o gi sy'n hoffi bath o leia ddeg gwaith y dydd? Shampwdd!!

EWCH O DDOT I DDOT



ADOLYGIAD

Daeth yr adolygiad yma i law ddiwrnod yn rhy hwyr i'r rhifyn diwetha' o'r *Eco*.

Diolch i ti Gwion am yr adolygiad diddorol.

Ydych chi wedi darllen llyfr diddorol yn ddiweddar? Beth am rannu eich syniadau gyda ni. Anfonwch i'r Gornel erbyn 19 Chwefror.

Enillydd Cystadleuaeth Mis Rhagfyr yw **Elfed Morgan Morris**, Llechwedd, Deiniolen. Llongyfarchiadau mawr i ti Elfed.

IRMA CHILTON

Rhyw ddau ddiwrnod yn ôl yr oeddwn i yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Cwis Llyfrau. Un o'r llyfrau yr oeddwn yn ei astudio oedd *Ffiwsi Be?* gan Irma Chilton. Ar y diwrnod canlynol clywais ar y newyddion bod Irma Chilton wedi marw. Roeddwn yn teimlo'n drist wrth feddwl na fyddai hi yn ysgrifennu llyfr arall. Stori ydi *Ffiwsi Be?* am hogyn o'r enw Sionyn yn breuddwydio ei fod mewn gwlad ryfedd o'r enw Ffiwsiosolawala. Os hoffech wybod mwy o'r stori bydd yn rhaid i chi ddarllen y llyfr!

Gwion Roberts
Tal-y-Bont, Llanrug.

LLIWIWCH Y LLUN



LLIWIWCH Y SIAPIAU + YN WYRDD, A'R SIAPIAU • YN FELYN. PWY SY'N CUDDIO YMA?

CWBLHEWCH YR WYNEBAU . .



SIBRYDION O YSGOL BRYNREFAIL

Pleser o'r mwyafr oedd gweld Alan Pritchard yn dychwelyd i'r ysgol ar ddechrau y tymor yma er mwyn ymgymeryd a gwaith yn y chweched dosbarth. Roedd croeso cynnes iawn yn ei ddisgwyl a mawr yw edmygedd y disgyblion a'r staff ohono.

Diwedd y tymor diwethaf anfonwyd £337 i gronfa Plant Mewn Angen, a mawr yw'r diolch i bawb a gyfrannodd ond yn arbennig i Salee a Diana Davies o Deiniolen a lwyddodd, gyda rhai ffrindiau, i godi £104 drwy gerdded i Gaernarfon.

Ar ddiwrnod hynod stormus a gwlyb ym mis Rhagfyr bu rhai disgyblion o'r pedwerydd a'r chweched dosbarth yn helpu i blannu coed ar lain o dir ger y maes chwarae yn Nant y Glyn, Llanrug. Yna ar fore Sadwrn, eto hynod stormus, ymunodd tua dwys o'r pedwerydd dosbarth gyda pedwar o athrawon ar daith gerdded o Ben y Gwryd i Nant Gwynant a Chwm Dyli cyn anelu am gysgod Pen y Bwlch Llanberis rhag y gwynt a'r eirlaw. Er na fu'r daith yn un hir mawr fu'r hwyl ac ambell swigan!

Bu pedwar tîm o'r ysgol yn cystadlu yn y rownd gyntaf y Cwis Llyfrau Cymraeg a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Cafodd y pedwar tîm ganmoliaeth uchel a daeth y tîm o'r pedwerydd dosbarth yn gyntaf. Byddant yn cynrychioli Arfon yn y rownd gyn-derfynol a gynhelir ym Mangor. Aelodau'r tîm yw Llinos Wyn Jones, Catrin Thomas, Menna Dauncy Williams a Sara Wood. Llonyfarchwn hwy a dymunwn yn dda iddynt pan fyddant yn cystadlu yn erbyn cynrychiolwyr Môn a Meirion.

Bu chwe disgybl yn mynychu cwrs gwaith maes lefel 'A' Daearyddiaeth ym Mhlas Tan y Bwlch ar ddiwedd Tachwedd. Astudiwyd twyni morfa Harlech, afon Croesor a dyffryn


Maentwrog a thref Porthmadog, a bu'r profiad yn un gwerthfawr iawn.

Ymwelodd rhai disgyblion 'Economeg y Cartref' o'r chweched dosbarth â Theatr Clwyd i wrando ar ddarlith gan Mr Ken Dudley yn dwyn y teitl 'Camgymeriadau a sut i ddysgu oddi wrthynt'. Siawns bod gwers i bawb yma!

Ar ddiwedd y tymor diwethaf daeth yr awdur lleol John E. Williams i'r ysgol i drafod ei waith gyda dosbarth Saesneg trydydd flwyddyn dan ofal Mrs Yvonne Roberts. Bu'r disgyblion yn darllen ei lyfr *Clouds of Time* a chawsant wir fwynhad o glywed yr awdur yn siarad am ei yrfa yn ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Cawsant agoriad llygaid o hanes yr ardal a chymeriadau diddorol trwy'r blynyddoedd. Edrychwn ymlaen at ofyn i Mr Williams rannu ei brofiadau a'i syniadau gyda mwyr o ddisgyblion yn y dyfodol. Penodwyd Mr Williams gan Gymdeithas Gelfyddydol Gogledd Cymru fel 'Awdur ar Daith' ac mae'n bosibl i ysgolion eraill gael profiad tebyg trwy gysylltu ag ef yn 'Gors', Allt Riwth, Llanrug.

Ar ddechrau Rhagfyr aeth Mrs Carys Evans a Mrs Mair Griffith a chriw Arlunio a Tecstilau blwyddyn 4 a 6 i Birmingham i weld arddangosfa y 'Clothes Show Live'. 'Roedd pawb wedi gwirioni gyda'r sioe ffasiynau a lwyfanwyd ar y llwyfan fwyaf erioed mewn sioe ffasiynau. Gwelwyd llawer o wynebau adnabyddus ym myd ffasiwn a chafwyd llofnod Jeff Banks gan amryw o'r genethod. Cafodd Wendi Thomas, Nia Griffith, Nia Jones, Sioned Lewis a Ffion Jones eu holi gan y BBC i raglen 'Lipstic' a ddarlledwyd ar y radio fore drannoeth.

Ar ddiwedd y tymor aeth 54 o



Tim Defnyddwyr Ifanc Ysgol Brynrefail

Stacy Turner

aelodau'r Urdd i Theatr Gwynedd i weld perfformiad o'r pantomeim 'Twm Sion Cati' a chafodd y plant hwyl fawr yn gweld rhai o'r athrawon yn cael eu camdrin gan rai o'r cymeriadau!

Mae Claire Louise Williams ac Iwan Rhys Parry o'r trydydd flwyddyn yn mynychu Dosbarth-iadau Meistrol Mathemateg y Sefydliad Brenhinol. Cynhelir y cyfarfodydd ar y Sadwrn yn Adran Fathemateg Coleg y Brifysgol, Bangor.

Bu disgyblion y chweched dosbarth wrthi'n brysur yn paratoi parti ar gyfer Ysgol Pendalar. Buont yn darparu am wythnosau, gan gynnal ymryd nodedig i gasglu arian tuag at y parti i brynu bwyd ac anrhegion. Cafwyd perfformiad gan ddisgyblion Pendalar cyn iddynt fwynhau'r parti blynyddol. Diolch i Mr Harri Jones a Mrs Carys Evans am eu cymorth.

Yn ystod gwyliau'r Nadolig cawsom gyfle i flasgu ar y teledu berfformiad arall o'r Sioe Gerdd '3-2-1' lle bu llawer o'n disgyblion yn ddisglair iawn. Ar ddiwedd Ionawr cawn gyfle arall i weld Martin Thomas un o sêr y ddrama, mewn perfformiad gyda Chwmni Theatr Sherman o Gaerdydd yn perfformio 'The Snow Spider' yn Theatr

Gwynedd.

Bydd nifer o'n disgyblion yn ymweld â Ffrainc yn ystod y misoedd nesaf. Bydd pymtheg yn ymuno â disgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen i ymweld a Paris yn ystod gwyliau'r Pasg. Cyn hynny bydd chwech o ddisgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio Ffrangeg yn cael profiad o fyw yn y wlad am gyfnod o fis. Byddant yn aros â theuluoedd ger Versailles ac yn cael profiad o fyd ysgol a byd gwaith tra yno.

Llwyddodd tîm o'r ysgol i ennill trwodd i rownd nesaf yng Nghystadleuaeth Defnyddwyr Ifanc y Sir. Pob hwyl iddynt yn y rownd nesaf.

Amser cinio ar y 15fed o Ionawr, diwrnod tyngedfenol yn hanes y Gwlff bu'r Prifathro a'r Prif Ddisgyblion mewn cyfarfod a drefnwyd gan Maer Arfon yn Siambr Cyngor Arfon yn tystio i heddych yn y Dwyrain Canol. Erbyn hyn mae rhyfel wedi torri allan ond yr un yw'r weddi a'r gobaith offrymwyd yno: 'Efengyl tangnefedd, O! rhed dros y byd'. Boed i ni fel ysgol fynegi ei gobaith a'n cysur i deuluoedd a chyn-ddisgyblion sy'n wynebu cyfnod anodd iawn gyda'r argyfwng hwn.

YMWELIAD A THEATR FACH, LLANGFNI

gan Dawn Pritchard, Lyndsey Vaughan Parry, Meinir Roberts a Lois Dafydd.

Nos Fawrth, Rhagfyr yr unfed ar ddeg aeth rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail i weld pantomeim Saesneg 'Cinderella' yn Theatr Fach, Llangefni, fe fwynhaodd pawb y pantomeim yn fawr iawn.

Roedd Sinderela yn cael ei actio gan ferch ddel iawn a oedd hefo gwallt du hir at ei hysgwyddau. Gwisgai ffrog at ei phengliniau ac esgidiau ysgafn du. Roedd yn actio yn dda iawn ac roedd ganddi lais uchel. Cymeriad da oedd Buttons, dywedai jôcs am yr athrawon ac Ysgol Brynrefail! Gwisgai siwt a llawer o fotymau arni. Hogan oedd yn actio rhan y tywysog, gwisgai ddillad crand ac roedd wedi clymu ei gwallt yn ôl er mwyn edrych fel hogyn. 'Roedd hithau yn actio'n dda hefyd. Merch ifanc oedd yn actio rhan Dandini. Wrth gwrs dyn yw Dandini sydd yn helpu'r tywysog. Roedd y brenin a'r frenhines yn byw mewn palas mawr ac wedi gwisgo yn grand dros ben, fel arfer daethant ar y llwyfan gyda'i gilydd.

Fel ymhob pantomeim Sindarella roedd yno chwiorydd hyll, Phoebe a Thisbe oedd ei henwau. Dynion oedd yr actorion ac felly edrychent yn hyll iawn. Tad y chwiorydd hyll a llysdad Sindarella oedd y Barwn, roedd yn actio'n ardderchog ac fel Buttons dywedai lawer o jôcs am yr ysgol,

gwnai i bawb chwerthin. Cymeriad pwysig yn y sioe oedd y fam fedydd gan mai hi oedd yn rhoi y cerbyd a'r dillad i Sindarella. Gallem ddeall bob gair a ddywedai gan ei bod yn brawddeg yn glir fel y ddau feili a oedd wedi eu gwisgo'n smart mewn du. Enw mul y pantomeim oedd 'Cobblers', gallai y ddau actor a oedd i fewn yn y siwt yn wirion iawn a chlyfar, un tro yn y pantomeim eisteddasant ar gadair. Plant ifanc oedd y dawnswyr, dim ond tua chwech oed oedd un bachgen bach. Dawnsient yn dda, ond nid oeddynt i gyd cystal a'i gilydd.

Pump golygfa wahanol oedd yn y pantomeim, sef: y stryd, tŷ'r Barwn, ystafell ddawnsio yn y palas, y gegin a'r goedwig, roedd y golygfeydd a'r dillad yn realistig iawn. Roedd llawer iawn o waith ac amser wedi cael ei roi i'r sioe, yr un ddynes a wnaeth y dilladau i gyd heblaw am ffrog briodas Sindarella.

Roeddem wedi mwynhau y pantomeim gymaint fel y buasem yn hoffi cael ei weld eto, ac eto, ac eto. . .

Pwyllgor Datblygu Dylunio a Thechnoleg Eryri

Cynhelir Cyfarfod Agored wedi ei drefnu gan Bwyllgor Rhanbarth yr

Urdd i sefydlu Pwyllgor Datblygu Dylunio a Thechnoleg Eryri yn Yr Aelwyd, 3-5 Stryd yr Eglwys, Caernarfon, nos Iau, Chwefror 7 am 7.30 o'r gloch.

Mae croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb mewn Dylunio a Thechnoleg ddod i'r cyfarfod.

Y GELLI GEIRIOS

Dyma gynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Gwynedd, sef cyfieithiad W. Gareth Jones o gomedi Anton Tsechov. Drama yw wedi ei lleoli yn Rwsia ychydig flynyddoedd cyn y Chwyldro.

Theatr Gwynedd: nos Fawrth, 19 Chwefror hyd nos Sadwrn 2 Mawrth, am 7.30 o'r gloch.

Swyddfa docynnau:
Bangor 351708

Cymdeithas Wyddonol Gwynedd

Nos Fawrth, Chwefror 5 am 7.30 o'r gloch yn narlithfa'r Adran Amaeth, Coleg y Brifysgol, Ffordd Deiniol, Bangor cynhelir darlith ar 'Mathemateg a Seryddiaeth yng Nghôr y Cewri.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Ynys Cyprus a Gwlad yr Aifft

Bore oer o Dachwedd ar yr A55. Tua thair mil o filltiroedd a phedair awr o deithio o Faes Awyr Manceinion a dyna fi'n glanio cyn hanner dydd yng ngwres crasboeth ynys bellenig yn Nwyrain Môr y Canoldir. Dyma'r tro cyntaf erioed i mi gael y cyfle i ymweld ag Ynys Cyprus, — y drydedd ynys o ran maint ym Môr y Canoldir, — gyda thri chyfandir yn ei gwarchod o hirbell.

Dyma ynys y gellir olrhain hanes bywyd dynol arni i tua chwe mil o flynyddoedd cyn Crist. Ynys sy' â'i duwiau/duwiesau mytholeg yn fythol fyw. Aphrodite — duwies cariad (mae yna win sych blasus yn dwyn yr un enw hefyd). Demetra — duwies Amaethyddiaeth, a'r duwiau, — Dionysos, duw y gwinoedd a hapusrwydd, ac wrth gwrs Apollo, duw yr haul, a Poseidon, duw y môr.

Ond mynd yno i ymlacio tipyn a wnes i yn hytrach nag i olrhain hanes ac i astudio mytholeg y gorffennol, er rhaid cyfaddef mae'n amhosibl crwydro'r ynys heb i'r gorffennol lapio amdanoch chi.

Dywedir i St Paul gael ei glymu wrth un o'r pileri sydd ger Eglwys Chrysopolitissa, Pathos, a chael ei chwipio 'ddeugain namyn un o weithiau', pan ymwelodd â'r ynys i gyhoeddi Cristionogaeth i'r Rhufeiniaid tua'r flwyddyn 45 AD.

Ia, hanes ddod yn lapio amdanoch. Mae tensiwn hanes heddiw i'w deimlo yna hefyd. Os chwalwyd mur Berlin, mae'r muriau'n dal i rwygo'r brif ddinas Nicosia. Ydy, mae problem Ynys Cyprus ar agenda'r Cenhedloedd Unedig ers tro byd, ond does 'na ddim brys i'w datrys yn ôl pob golwg. Tydi'r aur du a elwir yn olew ddim yn llifo drwy wythiennau Cyprus.

Mae'n werth diflannu o haul crasboeth y traethau a threulio ychydig ddyddiau ym mhentrefi gwledig yr ynys. Mi fydd y daith ar hyd y ffyrdd cul nadreddog i fyny i'r mynyddoedd yn brofiad bythgofiadwy.

Eglwys a thafarn a'r trigolion yn trin y tiroedd, a bywyd yn araf ac yn hamddenol. Prinder dŵr yn achosi problemau (heb gael glaw yno ers mis Mawrth). Problemau cau ysgolion gwledig yng Nghyprus hefyd. ysgolion yn

uno er mwyn arbed arian.

Ond, y diwydiant ymwelwyr yw prif ddiwydiant Cyprus heddiw. Ynys sy'n honni y ceir yno 340 o ddyddiau heulog mewn blwyddyn.

Ceir cyfle i ymweld â'r Aifft ac Israel o Limassol. Pymtheng awr o fordaith i Port Said, ac yna taith o tua 160 o filltiroedd mewn bws i Cairo. Plismyn arfog yn ein tywys ar y daith gyfochrog â Chamlas Suez. Tipyn o brysured i'w weld ar y gamlas. Tipyn o densiwn i'w deimlo. Wedi'r cyfan, tydi Saddam ddim yn byw ymhell iawn oddi yma.

Anialwch o wlad sydd rhwng Port Said a Chair, ond anialwch sy'n frith o wersylloedd milwrol, a oedd yn dwyn atgofion i mi am ddwsinau o'm cyfoedion a fu'n treulio peth o'u gwasanaeth milwrol yn y rhan hwn o'r byd.

Diolch i'r drefn mai mewn bws yr es i drwy ddinas Cairo. Sôn am drafnidiaeth, a chyrn yn cyfarch cyrn yn fygythiol. Doedd 'na'r un bws na char, na throl a mul, yn cymryd yr un sylw o oleuadau traffig, dim ond gwrthio ymlaen yn heriol a gobeithio'r gorau.

Yr unig le arall i mi weld anrhefn cyffelyb oedd dinas Bangkok, ond beics oedd yn achosi problemau yno.

Y prif atyniad yng Nghairo wrth gwrs, yw'r Amgueddfa lle cedwir trysorau Tutankhamun.

parhad ar dudalen 17

DAN FLEW EIN LLYGAID



hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

Y BYGYR DU EI WISG

Tipyn o ddannodd oedd o ar y cychwyn. Mae'n debyg iddo gael llond bol ar fyw mewn cae, a'i gwadnu hi, ar ffansi munud coll yn ei hanes, i'r ardd ffyrnt acw; gardd sy'n cynnwys y blodau gorau drwy holl sir Gwynedd yn eu tymor. Ac mi gymerodd yn ei ben mai efô ac neb arall oedd piau pob milimetr sgwâr o'r lawnt a'r border bach. Ac er ei fod cym'int llai nac myfi mi ddiawliais ef i'r cymylau gan ei alw'n bob enw dan y ddaear wen.

Twrch daear gyfeillion; un a all dros nos fel petae greu stomp o'th ardd — y cilcyn bychan y buost ti am oriau meithion yn creu trefn ohoni. A'r hyn a'm gwylltia'n gudyll oedd fod yr hen gythra'l bach wedi mynnu dod i'n gardd ni o bawb ac yntau yn gwybod o'r gorau fod erwau breisiach yn ei aros yn union dan ei drwyn ble 'roedd cyn iddo benderfynu mudo, a hynny mor ddiwahoddiad.

Do, gyfeillion bach, mi lwyddais i daro ar fagl go giaidd yr olwg mewn siop gwerthu nwyddau ail-law. Talu drwy fy nhrwyn am damaid o fetel, a gorfod byw o law i'r genau am wsnosau bwygilydd wedi hynny. Ac er imi adael y teclyn-dwyn-bywyd-twrch-dae-ar-i-ben mewn tomen dail, a hynny am dridiau, er mwyn dileu'r arogl dynol oddi ar y metel, 'roedd y twrch daear yn gallach nac myfi.

'Daliaist ti'r bygyr bach?'

'Naddo.'

'Blydi dôs o arsnig; paraffin — dyna setlith y diawl.'

'Tybed?'

Bid a fo â'ch cydwybod, os ydych am darfu ar y gronynnau bywyd sy'n y pridd, a thafu'r rhodd fwyaf a roddwyd inni, sef Bywyd, oddi ar ei echel.

'Dal ffroen gwn a'i lwytho â chatsran at y domen bridd, was.'

'A chael ysgytwad nes fod un ar wastad ei gefn a'i geg yn llawn o raeon a mwd!'

'Ydy' o'n dal yno?'

'Ydy.'

'Chefaist ti ddim gwared ohonno?'

'Naddo.'

'Wyddost ti fod y twrch daear



wedi bodoli yn ein cwr o Gymru ers o leiaf saith mil o flynyddoedd?'

'Cer o'na. Dydy hynny ddim yn helpu dim byd arnaf i.'

'Cyd-fyw ynte.'

'Beth?'

'Siawns na elli di gyd-fyw â chreadur bychan sydd ddim ond ryw gant a hanner gram o bwysau.'

'Rargol, dydw'i ddim yn gwybod wsti.'

'Mae'n bosib cyd-fyw wsti, er waethaf fod dy gyd-ddynion ym mhedwar ban byd yn parhau i ladd a dinistrio ac amddifadu'r hen ddaear o Fywyd. Mae'n bosib . . .'

DRAENOG

Sôn am roi eich troed ynddi hi! Glywsoch chi am Brifathro o'r fro yn mynd i weld ei Weinidog i'r Mans, a rhoi ei DDWY droed ynddi hi.

Cyrraedd y cyntedd a chanu'r gloch — yna rhuthriad a bloedd annaeol y Gweinidog. Ond yn rhy hwyr! Roedd dwy droed y Sgwlyn yn sownd yn y sment gwlyb. Ysgwn i beth ddwedodd y Meistr wrth y Disgybl y tro hwn? 'Da Was?' . . . Dim ffiares!

BRYN

(B & K Williams)


Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Cymdeithas Undebol: Cynhaliwyd sawl gweithgaredd gan y Gymdeithas yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr. Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yn y Ganolfan dan arweiniad Mrs Betty Peris Roberts a Miss Olwen Bryn Roberts ar nos lau, 15 Rhagfyr. Yna ar y nos Fawrth canlynol bu Radio Cymru yn recordio rhaglen 'Talwrn y Beirdd' yn y Ganolfan, ac fel y gellid tybio ni chafodd neb eu siomi wrth weld y beirdd yn ymateb mor safonol a chreffftus i'r tasgau a osodwyd iddynt gan y Prifardd Gerallt Lloyd Owen. Darlledwyd y rhaglen ar y radio yn ystod mis Ionawr. Nos lau, 7 Ionawr, cyfle aelodau Capel Sardis oedd hi i drefnu Cyfarfod Gweddi, dan arweiniad Mrs Megan Morris. Ar gyfer nodi yn ei dyddiadur cofiwch fod Mr John H. Hughes o Lanberis yn annerch y Gymdeithas ar nos lau, 7 Chwefror a llywydd y noson fydd Mr Rennell Williams. I ddiwedd y tymor y Gymdeithas am y gaeaf cynhelir noson o Gawl a Chân, nos lau, 28 Chwefror, yn y Ganolfan am 7. Darperir yr adloniant gan bedwarawd o Seindorf Arian Deiniolen, yn ogystal ag eitemau cerddorol gan Lyndsay V. Parry, Sara Wood, Alaw Mari Hughes ac Elfed Morgan Morris.

Pwyllgor y Ganolfan: Cynhelir cyfarfod o bwyllgor y Ganolfan nos Fawrth, 5 Chwefror am 7 yn y Ganolfan. Wrth sôn am y Ganolfan manteisir ar y cyfle i ddiolch i'r rhai a fu yn gyfrifol am lunio a gosod arwydd gyda'r geiriau 'Y Ganolfan' wrth y fynedfa. Diolch i deulu Anderson o Penrallt am y deunydd pren; i Mr G. Pritchard, Pen Dyffryn am baentio y geiriau ar y pren ac i Mr Rennell Williams a Mr E. Bryn Roberts am osod yr arwydd i fyny.

Gwerin y Coed: Dymuna'r swyddogion ddiolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi a gynhaliwyd

yn y Ganolfan ar fore Sadwrn, wythnos cyn y Nadolig. Yn ogystal a chael paned a mins peis 'roedd cyfle i chwarae bingo ac amrywiaeth o gemau fel dyfalu nifer o 'smarties' oedd mewn pot, a dyfalu pwysau cacen ffrwythau, raffi, a.y.b. Yna ar ddiwedd y bore canodd y plant amryw o ganeuon o wahanol wledydd. Dilynwyd hyn gyda phawb yn canu carolau. Sicrhawyd elw o £43.

Cronfa Hospice Gaerwen: Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Mabel Evans, Pentre Berw hysbysu bod y swm o £372 wedi ei gasglu at Gronfa Hospice Gaerwen. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniad.

Toriadau yn y Cyflenwad Trydan: Er yn gobeithio na welwn ein cyflenwad trydan yn mynd i ffwrdd yn ystod y misoedd nesaf deallwn gan MANWEB bod dau rif argyfwng ar gael, sef Caernarfon 4166, a Bangor 363214. Ar yr un pryd maent yn derbyn bod cwsmeriaid yn cael cryn drafferth i gysylltu â hwy pan gyfyd argyfwng ac i'r perwyl hwn maent yn gobeithio gwella ar eu sustem ffôn argyfwng yn y dyfodol agos.

Pen Gallt y Foel: Yn eu cyfarfod yn ddiweddar bu i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen fynegi eu pryder unwaith yn rhagor ynglŷn â chyflwr anfoddhaol y ffordd ar ben Gallt y Foel, yn arbennig ar ddiwrnodiau gwlyb pan mae'r dŵr ar wyneb y ffordd ymhobman. Yn yr un cyfarfod dywedodd y Cynghorydd Sir, Mrs P. Larsen ei bod wedi gofyn am adroddiad ynglŷn â'r sefyllfa gan Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

Pwyllgor Adloniant: Yn ogystal ac estyn cymorth ariannol i'r achosion a nodwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco cytunwyd i roi cyfraniad ariannol o £100 i Ysgol Gwaun Gynfi ar gyfer prynu llyfrau arbennig i'r plant. Hefyd noddwyd trip i blant Dinorwig fynd

i Theatr Gwynedd i weld y pantomeim 'Twm Sion Cat'. Fe drefnwyd y trip ar brynhawn dydd Sadwrn, 5 Ionawr ac yn ôl pob sôn fe gafodd pawb amser wrth eu bodd.

Cydweithio: Tybed a welwn gydweithio pellach rhwng gwahanol enwadau crefyddol Dinorwig yn y dyfodol agos. Dyna fydd ar y gweill os cytunir i sefydlu Cyngor Cyd-Enwadol yn y pentref ar gyfer rhannu syniadau a gwybodaeth ynglŷn â

sefyllfa crefyddol o fewn y pentref. Er bod pob un o'r enwadau wedi cytuno i drafod y syniad ymddengys nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto. Efallai y byddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi y penderfyniad a wneir yn y rhifyn nesaf.

Gwellhad buan: Gwyddom o'r gorau bod rhai o'r pentref nad ydynt yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd. Yn naturiol dymunwn wellhad buan i bob un ohonoch.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna Hugh a Nerys Roberts, Murmur y Nant, Glan Seiont, Caernarfon; Gwenda ac Arthur Prince, Bwcle; Catherine a Meredydd Jones, Brynsiencyn, ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain, sef y ddiweddar Mrs Jennie Pierce Roberts, Rachub (gynt o Tanygraig, Deiniolen). Diolch arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof tuag at Ysgol Pendalar, Caernarfon.

Eglwys M.C. Brynrefail: Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r Nadolig, nos Sul, 16 Rhagfyr. Cymerwyd rhan gan Mr Richard Wyn Evans, Mrs Pat Jones, Teulu Min y Nant, Carol a Nicola Houston, Mrs Euronwy Roberts, Mrs Jennie Angharad Roberts ac Amy Lambert, Mrs Mair Davies a Rhian Davies, Mrs Betty Owen a Rhian Owen, Mrs Gillian Morris a Rhys Morris, Mr Bertie Roberts, Miss Lowri Prys Roberts a Mr David G. Ellis.

Nos Sul, 6 Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod gweddi dechrau blwyddyn. Cymerwyd rhan gan y Gweinidog, y Parchg John Morris, Mr Richard Wyn Evans, Mr Bertie Roberts a Mrs Jennie Angharad Roberts.

Profedigaethau: Yn ystod y mis bu nifer o deuluoedd mewn profedigaeth o golli anwyliad. Cydymdeimlwn â Mr Elwyn Jones, 1 Trem Eilian ar golli chwaer yn Birmingham, a chwaer-yng-nghyfraith i Mrs Dilys Jones, Cytir. Estynwn gydymdeimlad â Mrs J. Maxwell, Bro Dawel, o golli ei brawd-yng-nghyfraith, sef y diweddar Mr James Maxwell, Llanrug. Ar 14 Ionawr bu farw'r ddiweddar Mrs Jane Ann Closs Parry, Bryn Ceris, Fachwen. Bu'r angladd yng Nghapel M.C. Brynrefail, ddydd Gwener, 18 Ionawr. Gwasanaethwyd gan y

Parchg Cledwyn Griffiths, Fflint, a'r organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis. Cydymdeimlwn â'i mab, Mr Norman Closs Parry, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cafwyd cyngerdd llwyddiannus i gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am 1990 yn y Frestri, nos Wener, 14 Rhagfyr yng nghwmni 'Lleisiau'r Rhyd'. Croesawyd y Parti gan llywydd y Gymdeithas, Mrs Gillian Morris. Cyflwynwyd ac arweiniwyd y cantorion gyda'u deholiad o gerddoriaeth Nadolig gan eu harweinydd Mrs Eurgain Evans gyda Mrs Ild Jones wrth y piano. Cafwyd gair o werthfawrogiad ar y terfyn gan Miss Lowri P. Roberts. Mwynhawyd lluniaeth dymhorol cyn troi tyag adref. Bydd y Gymdeithas yn ailgydio yn ei gweithgareddau yn y gwanwyn pryd y disgwylir Miss Alice Eileen Williams, Caernarfon i annerch y cyfarfyddiad cyntaf nos lau, 11 Ebrill 1991.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri nos Lun, 21 Ionawr. Treuliwyd y noson yng nghwmni Mrs Mair Parry o Ddyffryn Nantlle yn adrodd hanes ei phlentyn-dod cynnar yn Crawiau, Llanrug. Rhoddwyd y baned gan Mrs Dwynwen Williams a Mrs Mair Williams. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Rhian Jones, gan Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 18 Chwefror, pryd yr ymwelir ag arddangosfa crefftwaith dathliad 75 mlynedd Sefydliad y Merched yn Oriel Eryri, Llanberis gyda lluniaeth i ddilyn yng Ngwesty Gwynedd. Mae trefniadau mewn llaw hefyd ar gyfer y Cinio Gŵyl Ddewi, nos Wener, 1 Mawrth — enwau, os gwelwch yn dda, i'r Ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen, Tros yr Afon.



Aelodau Gwerin y Coed yn gwersylla yn ystod yr haf y llynedd.

CEIR ELIDIR LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

CYNGERDD GŴYL DDEWI

Neuadd Pritchard Jones
Coleg y Prifysgol, Bangor
Chwefror 28ain, 1991 am 7.30

Artistiaid :

Côr Godre'r Aran, Carys Edwards
Dafydd Iwan a'i Fand, Rhian Elena
Côr Plant Ysgol David Hughes
Edward Morus Jones (Arweinydd)
Llywydd: Yr Athro J. B. Owen

Tocynnau wrth y drws
£3 i oedolion £2 i blant a phensiynwyr

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o ennillwyr y 'Clwb 300' am fis Rhagfyr: 1, £40, Iolo Huws Roberts, Bodrida; 2, £25, Miss Marian Jones, 20 Tŷ Hen; 3, £10, Dr Huw Roberts, Hafodty, Rhosbodrual; hefyd telir dwy wobwr o £10 i Joanna Greasley, Minafon a Eurig Wyn, Y Frenni.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan, nos Lun, Ionawr 14, ac er gwaethaf y tywydd oer, daeth cynulliad da iawn ynghyd i wrando ar ddarlith ddifwr y Parchg Iorwerth Jones Owen ar 'Hiwmor'. Llywyddwyd gan Mr R. Gwynn Davies a thalwyd y diolchiadau gan Mr Eifion Glyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 28 pan y ceir hanesion a fydd yn gefndir i eitemau o eiddo rhai o'r aelodau. Llywyddir gan Miss Ifanwy Rhisiart. Nos Lun, Chwefror 11, ceir noson o 'Ddarlleniadau Amrywiol', o'r difrif a'r digrif gan Guto Roberts, ac ar nos Lun, Chwefror 25, daw Mr Dewi Tomos, Rhostryfan atom i ddangos sleidiau o wahanol rannau o Ddyffryn Nantlle ac i roi dipyn o hanes ei fro enedigol.

Yr Urdd: Dechreuodd tymor y gwanwayn gyda gêm Gyrfa Chwilod, yng ngofal Anti Beryl ac Anti Ann Elfryn. Yna, nos Fercher, 23 Ionawr, cafwyd ffilmau a sgwrs am wersylloedd yr Urdd yng Nglanllyn a Llangrannog gan un o swyddogion yr Urdd gyda Anti Olwen ac Anti Heulwen yn cynorthwyo.

Eisteddfod Yr Urdd: yn Ysgol Syr Huw Owen, dydd Sadwrn, Chwefror 23, cynhelir yr Eisteddfod Cylch, oedran 12-15 oed. **Dalier sylw:** fe fydd y cystadleuthau cân actol o dan 12 oed, dawnsio disg o dan 12 oed, a dawnsio gwerin dan 10 a 12 oed, hefyd yn cael eu cynnal fore Sadwrn 23 Chwefror. Cynhelir yr Eisteddfod Cylch o dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, dydd Sadwrn, 2 Mawrth.

Os am gystadlu (yn unigol neu mewn parti) cewch rhagor o fanylion gan Anti Nan. Enwau'r cystadleuwyr i law erbyn 10fed o Chwefror, os gwelwch yn dda.

Mae Anti Ann Elfryn, Coed Gwydryn, yn barod iawn i gynghori gyda'r cystadleuthau gwaith llaw, bydd y rhain yn cael eu beirniadu yn Ysgol Bontnewydd, ddydd Mawrth,

19 Mawrth am 5 o'r gloch. Bydd Arddangosfa Sirol o'r gwaith llaw yn Neuadd J.P., Bangor, dydd Sadwrn, 23 Mawrth.

Pob hwyl i'r tîm pêl-droed dan 13 oed fydd yn chwarae yn erbyn tîm adran bentref Penisarwaun yn ystod y dyddiau nesaf yma.

Plaid Cymru: Cangen Waunfawr a Chaeathro. Diolch i bawb a gefnogodd Ffair Nadolig y pentref ac yn arbennig i'r rhai fu'n gyfrifol am stondinau a'r rhai a gyfrannodd nwyddau ar gyfer y raffl. Byddwn yn ymuno â Changen Llanrug i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth y cyntaf.

Clwb y Mamau: Mae aelodau y clwb wedi trefnu Noson Goffi yn y Ganolfan, nos Wener, 8 Chwefror am 6.30 o'r gloch. Bydd yr elw yn cael ei anfon i Gronfa Plant Romania.

Eisteddfod yr Ardal: Teimla pwyllgor yr Eisteddfod fod angen aelodau newydd i'r pwyllgor er mwyn dod a syniadau a chystadleuthau newydd i'r Eisteddfod. Er mwyn trefnu hyn mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu yn y Ganolfan, nos Fercher, 20 Chwefror am 7.30 o'r gloch, a gobeithir yn fawr gweld wynebau newydd yno, hen ac ifanc. Dewch a'ch syniadau yn llw.

Llywyddiannau Cerddorol: Llongyfarchiadau i Kristy Jones, Cynefin, ar lwyddo yng ngradd 5 theori cerdd; — i Alaw Jones, Rhandir Mwyn ar lwyddo yng ngradd 6 arholiad ffliwt; — ac i Osian Gwynedd, Nant, am lwyddo yng ngradd 6 chwarae'r piano, a gradd 7 yn arholiad Sacsaffôn. Llwyddodd Osian gydag anrhydedd yn y ddau arholiad.

Llongyfarchiadau: i Delyth a Gari, Hyfrydle, ar enedigaeth eu mab bach, Iwan Morgan, ac i Mr a Mrs Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, ar ddod yn daid a nain i'r bychan.

— Ganwyd merch fach, Sara Lloyd, i Anna a Gareth Williams, wyres fach i Emrys Lloyd Hughes, Dreflan Isaf, a gorwyres fach i Mrs Hughes, Gwastadfaes.

Croeso adref i Eira Roberts, Llwyn Celyn, braf dy weld yn ôl Eira.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Llinos Dinwyddy, Y Garth, Mrs Taylor, Baladeulyn, Mrs Hughes, Llys Meredydd a Mrs Carol Griffith, Bryn Golau, sydd yn yr ysbyty. Hefyd at Mrs Pierce, Stâd Tref Eilian, sydd wedi mynd i aros i gartref preswyl am gyfnod.

Adref o'r ysbyty: Croeso i Marc

Greasley un o'r triplets bach ac i Fiona a Ceryl Davies, dwy chwaer o Dref Eilian, ac i Geraint Roberts, Pant Afon, a Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, adref o'r ysbyty. Gobeithio fod Mrs Janet Smith, Rhoslan, yn gwella ar ôl bod mewn damwain car. Mae amryw o drigolion y pentref yn wael ac yn gaeth i'w cartrefi, anfonwn ein cofion cynhesaf atoch. **Cydymdeimlwn** â Mrs Evans, Lleifior, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, ac â Miss Eirlys Jones, Maelor, hithau hefyd wedi colli ei chwaer a oedd yn byw yn Abergele. **Croeso yn ôl i'r Waun:** Daeth Catrin, Bod Afon a'i theulu i fyw i Stâd Tref Eilian, a daeth Gwyn Parry, Ffridd Felan a'i deulu i fyw i Stâd Dol Erddi, croeso'n ôl i'r ddau deulu.

Dymuniadau gorau i Anthony Marston, Blaen y Nant, a

gychwynodd ar daith blwyddyn o amgylch y byd, ar 15 Ionawr. Bydd yn ymweld â'r India, Thailand, Fiji, Hawaii, a bydd yn aros i weithio yn Awstralia a Chanada ar ei daith.

Dymunwn bob bendith i Gwyn, mab Ann a Treflyn Thomas, Treforfan, sydd yn rhinwedd ei swydd wedi gorfod mynd i'r Gwlff i weini ar y milwyr fydd yn cael eu hanfon. Cofion cynhesaf atat Gwyn.

Nos Lun, 14 Ionawr, ymgyrchodd llawer o drigolion y pentref a'r ardal i Eglwys Sant Ioan i gyfarfod o weddi am heddych yn y byd.

DRAENOG

Pa un o swyddogion yr Eco sy'n herio'r oerni yn ei gôt nos — a hynny fore Sul, er mwyn rhoi'r dillad allan ar y lein?

Cystadleuaeth 'Heddiw' HEDDIW AR RADIO CYMRU

Y newyddion diweddera o'r byd a'r betws . . . Sgyrsiau bywiog . . . Ambell gân . . . Lleisiau byd amaeth a byd chwaraeon . . . Calendr y diwgwyddiadau . . . Adolygiadau . . .

Hyn . . . a llawer mwy ydi'r arlwy sydd i'w gael yn HEDDIW bob bore o ddydd Llun hyd ddydd Gwener yng nghwmni Sian Pari Huws yng Nghaerdydd a Vaughan Hughes ym Mangor.

Ar ben hyn, bellach, mae cyfle i CHI ennill £20 bob wythnos a hynny am brofi eich gwybodaeth am faterion cyfoes.

I gael blas ar y gystadleuaeth,



beth am ateb y cwestiynau isod a gyrru'r atebion atom erbyn Mawrth 19eg — bydd y cyntaf cywir o'r het yn ennill £40!!

1. Lle fydd gêm derfynol cwpan rygbi'r byd yn cael ei chynnal eleni?

2. Pwy ydi arweinydd y Blaid Lafur yn Nhŷ'r Arglwyddi?

3. Pa rif ydi George yn nhîm Bryn Coch United?

4. Pwy sydd wedi anfarwoli ei nain, Jên Jones, mewn can bop?

5. Pwy sgrifennodd am *Flwyddyn yn Llŷn*?

6. Enw a Chyfeiriad:

Anfonwch eich atebion i:

Heddiw, Stafell 3007, Canolfan y BBC Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

HEDDIW AMDANI FELLY!

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod orïau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref **E. Ll. Parry** M.S.S.Ch., M.B.Ch.A. 57 Glanffynnon **LLANRUG**

Ffôn:
**Caernarfon
5754**

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Y Ddiweddar Lady Olwen Carey Evans

Bron hanner can mlynedd ar ôl ei farw mae'r gwleidydd enwog o Gymro, David Lloyd George yn parhau i ennyn diddordeb a dychymyg pawb.

Doedd neb heddiw'n cofio ei thad yn well na Lady Olwen Carey Evans — yr olaf or plant. Mae ein diolch yn ddwfn i HTV Cymru (Ebrill 1981) pan oedd yn rhannu atgofion personol gyda Elinor Jones am ei bywyd diddorol a lliwgar. 'Rwy'n cofio sgwrs y ddyn yn iawn. Mwynhad pur oedd eu clywed yn sgwrsio mor naturiol. Dorothy Williams, o Gricieth, oedd yn cynhyrchu'r rhaglen mor odidog a Gareth Jones yn cyfarwyddo.

Aeth â ni o Gricieth i Stryd Downing ac o'r Almaen i'r India.

Ddechrau Ebrill 1981 yr oedd Lady Olwen yn dathlu ei phen-blwydd yn 89. Yr oedd yn dal i edrych yn ieuanc a sionc. Siaradai yn y sgwrs gyda Elinor, a recordiwyd yn ei chartref ym Mhentrefelin, am ddigwyddiadau mwyaf cyffrous ei bywyd, ac yr oedd huodlled a hiwmor ei thad yn amlwg iawn. Yr oedd y tân a losgai yng nghalon ei thad yn dal i losgi yn ei chalon hithau.

Bu'n rhaid iddi dreulio blwyddyn yn Dresden yn yr Almaen, 'Mae'n rhaid i ti aros yno Llwydyn,' meddai ei thad wrthi. Mae'n debyg mai dyna y galwai Lloyd George hi. 'Fydda fo ddim yn fy ngalw yn Olwen ond pan fyddwn wedi gwneud rhyw ddrwg.'

Wedi cyfnod yn yr Almaen aeth ymlaen wedyn i Baris a mwynhau bywyd llawn yno a chael cryn hwyl.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf priododd Lady Olwen. Yr oedd ei thad yn Brif Weinidog ar y pryd. Ei gŵr oedd Thomas Carey Evans, ac yn ôl Lady Olwen

(Ysgrifennais yr erthygl yma yn yr Herald Gymraeg, 12 Mai 1981, o dan y pennawd 'Y Tŷ a'r Teulu' gan Mari Lewis)

cyfarfu'r ddau dros baned o de. 'Roeddwn i wedi bod allan yn rhywle,' meddai, 'a phan ddeuthum yn ôl roedd o yn y tŷ yn cael te gyda'r teulu.'

Y Briodas

Wedi priodi aeth Lady Olwen i'r India gyda'i gŵr, a oedd ar y pryd yn feddyg i Viceroy y cyfnod, yr Arglwydd Roadug. 'Yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oeddem yn byw yn Bangalore ac yr oedd pethau yno braidd yn anniddorol. 'Dyw merched ddim yn gwneud rhyw lawer nac yn cymysgu gyda phobl y wlad. Ond wrth gwrs yr oeddwn i yn cael mwy o gyfle i gyfarfod a rhai ohonyn nhw gan fod Tom yn feddyg. Byddai yn dŵad a rhai a'r cleifion i mewn a byddwn innau yn cyfarfod a'r gwagedd.'

Yr oedd llawer o gymdeithasu i'w wneud yn yr India, a byddai Lady Olwen yn mynd i lawer o bartion. Cafodd gyfle i ddawnsio gyda Tywysog Cymru, Brenin Edward yr Wythfed yn ddiweddarach. 'Rwy'n dweud hyn wrth bawb — dyna uchafbwynt fy amser i yn yr India!'

Rhyddid i Gymru

Yn ei ddydd 'roedd Lloyd George yn sôn yn aml am ryddid i Gymru. Pe byddai o fyw heddiw byddai wedi cael ei siomi yn arw yng nghanlyniad y referendum ar ddatganoli. 'Fe bleidleisiais i dros ddatganoli, ac mae gen i gywilydd dros fy nghyd Gymry am iddynt fod mor llwft a di-asgwrn-cefn. Mae'n rhaid cael ffydd i gyrraedd y nôd,' meddai.

DAVID LLOYD GEORGE

Enwog ŵr yn dân i gyd — a'r

Rhwyddaf ymadroddwr tanllyd;

Huawdl ei lef oedd hefyd,

A Chymro bach mwya'r byd.

Dwyfor

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Avril Jones a'r teulu, Glan-y-Don, yn eu profedigaeth o golli ei thad yn Llanberis. Drwg iawn gennym glywed am farwolaeth sydyn Mr Philip Owen ym Manceinion (gynt o Awelon). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod a'r plant, hefyd ei frawd Mr Ifan Owen, Dôl Afon a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Pantomeim: Nos Wener, 4 Ionawr, aeth llond bws o'r Cwm i Theatr Gwynedd i weld y Pantomeim 'Twm Sion Cati'. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn. Dymunwn ddiolch i Mrs Sioned Jones, Isfryn am drefnu'r noson.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod i'r aelodau yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth 15 Ionawr. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi. Trafodwyd rhai materion yn codi o'r pwyllgor a gafwyd ym Mhorthaethwy ar 20 Tachwedd. Awgrymodd Mrs Joan Williams gael stondin prynu a gwerthu yn ein cyfarfod nesaf a phasiwyd hyn gan yr aelodau. Cyflwynwyd y wraig wadd, Mrs L. Perry, gan Mrs Enid Taylor. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Perry ar Faneri oedd wedi eu cynllunio a'u gwneud ganddi. Diolchwyd i Mrs Perry gan Mrs Bet Jones. Yn gofalu am y baned roedd aelodau Cwm-y-Glo a diolchwyd iddynt gan Mrs J. Side. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Marjorie Roberts, ac fei henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf yn Hafan Elan, Llanrug, nos Iau, 12 Chwefror.

Clwb Pobl y Cwm: Ail gyfarfu aelodau'r Clwb ar 10 Ionawr, wedi egwyl gwyliau'r Nadolig, a phleser i'r llywydd fu cael croesawu un o'n cyn-athrawesau, Mrs Maureen Lennon yn wraig wadd. Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol a chynhwysfawr ganddi ar dymor y Nadolig, o'r Adfent hyd yr Ystwyll. Rhoddodd eglurhad ar ystyr a tharddiad y gwahanol symbolau sydd ynglŷn â'r Ŵyl, yn cynnwys yr addurniadau, y goeden Nadolig, yr anrhegion a'r gwasanaethau eglwysig arbennig. Teimlem i gyd ein bod wedi dysgu llawer iawn am bethau na roisom efallai y sylw dyledus iddynt o'r blaen. Diolchodd Mr Llew Hughes yn gynnes i Mrs Lennon. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick ac enillwyd y raffl gan Mrs E. M.

Jones.

Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo: Do diolch, fe gawsom Nadolig llawen. A chitha' gobeithio? Fe gawsom barti, gwasanaeth, pantomeim a llwyth o anrhegion. Diolch i bawb am eu caredigrwydd ac yn arbennig i chi ddaru gyfrannu tuag at yr £80 a anfonwyd i Apêl Blue Peter at Blant Rumania.

Mae'r flwyddyn yma yn prysur fynd, fel pob un arall. Mae'n ddiweddd mis Ionawr bron a rhai pobl yn meddwl, na, wedi bwcio eu gwyliau haf yn barod!

Gawn ni eira, d'wch? Anodd dweud. Ond mae sawl bore barugog wedi bod yn toes? Pe tai rhywun yn cael damwain, dim problem. Bu Mrs Rita Williams ar gwrs Cymorth Cyntaf a rwan mi fedr roi eich braich mewn bandaid neu roi'r Kiss of Life i chi.

Erbyn y bydd y rhifyn yma allan, bydd diwrnod Dwyndwen wedi bod. Mae pwyllgor yr Adran Gymuned wedi bod yn brysur yn trefnu noson o Gawl a Chân i ddatlu diwrnod gŵyl santes cariadon Cymru. Fedr petha ond wedi mynd yn dda efo'r trefnu a'r canu yng nghwmni Edward Morris Jones. Gobeithio eich bod chi yno.

Prysurdeb mawr ym mysg y plant yn mwynhau gwersi beics a hyfforddiant arbennigol ar y cyfrifiadur. Er mae ambell un yn sleifio allan o'r dosbarth i weld y pysgod newydd. Diolch i'r rhieni a'r cyfeillion am gyfrannu tuag at eu prynu.

Wel, dyma'r cyfan am y tro. Rhaid mynd rwan, mae'r ffôn fondigrybwyll yn canu eto. Byddwch yn ofalus a pheidiwch a gadael i'r oerni afael ynoch chi. Swatio a chlosio at eich partner. Dyna fyddai Dwyndwen yn ei ddweud, mae'n siwr.

Diwrnod Cenedlaethol

Dim Ysmygu



Angen help?
BANGOR
351149

BARRY'S GLASS

Drysau a Ffenestri uPVC

Drysau Patio



CAMELOT
PENISARWAUN
Ffôn: 871144

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDADIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors



Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

"DYCHWELYD"

Stori Fer gan Bethanne Williams

Eisteddai Edward yn syllu'n ddi-weld ar ewyn gwyn y tonnau'n torri ar y traeth. Camgymeriad oedd dychwelyd i'r pentref bychan yma yn Iwerddon lle bu ef a Catrin mor hapus ar eu mis mêl. Doedd y lle ddim wedi newid fawr ddim yn y deuddeng mlynedd a aeth heibio ers yr wythnos hynny — y croeso yr un mor gynnes a'r diddordeb ynddynt yr un mor frwd.

Oedd, roedd dau yma eto — na, nid Catrin, ond Ben eu mab. Un o ddymuniadau olaf Catrin oedd i Edward ymweld a Clodian efo Ben, gan eu bod, ers i Ben fod yn fabi, wedi gaddo dychwelyd fel teulu i'r lle hudolus yma lle y blasodd y par ifanc baradwys am wythnos.

Ond anodd iawn oedd hi i Edward wynebu'r dyddiau yma a gwên ar ei wyneb. Roedd ei galon yn dal yn drom wrth feddwl am Catrin a gipiwyd mor sydyn gan afiechyd y flwyddyn cynt. Ond rhaid oedd gwneud y gorau o'r gwaetha achos roedd Ben wrth ei fodd yma.

Crwydrai hwnnw'r traeth yn feunyddiol gan ddarganfod lle cynnau diddorol yn llawn rhamant i blentyn wyth oed. Bob hyn a hyn, rhedai nôl at ei dad i arllwys y profiadau newydd yma fel ton drosto.

Clywodd Edward droeon am y ddynes gwallt coch a ddangosai gymaint o bethau difyr i'w fab, ond chafodd Edward ddim cyfle

eto i'w chyfarfod hi. Roedd yr atgofion am ddoe yn dal yn rhy fyw yn ei gof. Er hyn, doi gwên i'w wyneb wrth weld y pleser gawsai Ben yma ar y traeth. Bob dydd byddai Ben yn diosg ei ddillad a rhedeg yn wyllt i'r tonnau a'i chwerthin iach yn llenwi gwacter bywyd Edward.

Tra roedd Ben yn chwarae yn y môr, byddai Edward yn ei wyllo efo llygad barcud. Bu'r môr yn fwgan iddo 'rioed ond ni wyddai pam. Roedd y pentrefwyr hefyd wedi eu siarsio i fod yn ofalus gan fod y llanw yn dwyllodrus iawn yma ar ddechrau Medi. Syrthiodd y geiriau ar glustiau byddar i Ben gan na fedrai dim effeithio ar ei fwynhad o'i wyliau.

Aeth wythnos heibio yn sydyn ag Edward yn hapusach ei fyd. Dal i fyrlymu siarad yr oedd Ben am y rhyfeddodau a ddangoswyd iddo gan y ddynes gwallt coch. Anodd iawn oedd credu Ben ar adegau, gan fod Edward yn dal heb weld cip arni. Ond dyna fo, gwyddai fod gan Ben ddychymyg

byw.

Rhaid oedd chwarae yn y tonnau unwaith eto cyn dychwelyd adre, a rhedodd Ben nerth ei draed am y ceffylau gwyn ar frig y tonnau. Syllai Edward arno a chariad tad at fab yn treiddio drwy'i enaid, pan yn sydyn troesodd y rhamant yn hunllef.

Cipiwyd Ben yn ddisymwyth gan don enfawr. Collodd ei draed ac fe'i tynnwyd o dan y môr. Rhedodd Edward cyn gyflymed a phosibl at y môr, ond ni welai unrhyw ran o gorff ei fab uwchben y dŵr.

Gwaeddodd yn wallgo gan gerdded i mewn i'r dŵr pan sylwodd ar ddynes efo gwallt coch yn dwad tuag ato yn cario ei fab yn ei breichiau. Dywedodd 'run gair wrtho ond cerdded heibio a gosod Ben yn ofalus ar y tywod sych a'i orchuddio efo blanced. Wrth i Edward nesau, diflannodd.

Oedd, roedd Ben yn ddiogel, ac wrth ei fagu o flaen tanllwyth o dân yn y gwesty, adroddodd Edward y stori am sut yr achubwyd Ben. Yr unig ymateb a gafodd wrth Mrs O'Leary oedd: 'Mae Caitlin wedi llwyddo tro yma!'

Holodd Edward lle roedd Caitlin yn byw, er mwyn cael diolch iddi. Ond stori ryfedd gafodd fel ateb.

Roedd gan Caitlin fab hefyd. Hoffai'r ddau grwydro ar hyd y traeth bob dydd. Pan oedd y mab tua wyth oed, cipiwyd ef gan don enfawr ac er i Caitlin geisio ei achub, collwyd y ddau.

Digwyddodd hyn tua deugain mlynedd yn ôl ond ni welwyd un o'r ddau byth wedyn tan rŵan...

parhad o dudalen 13

Cefais yr un teimlad yma ag a gefais pan ymwelais â'r Hermitage yn Leningrad, sef y carwn dreulio pythefnos yma i werthfawrogi'r cyfan.

Tro i weld y pyramidiau yn Giza a'r Sphinx wrth gwrs. Ma' nhw'n deud fod 'na ddigon o flociau cerrig yn y pyramid mawr yn Giza, o'u rhoi ochr yn ochr, y byddent yn gwneud cylch o gerrig a fyddai'n dri chwarter cylch o amgylch y byd. Anhygoel.

Sut, a phwy yn y byd a gariodd y fath nifer o gerrig enfawr i'r lle cynnau hyn? Ond, dyna fo, onid yw Pyramidiau'r Aiffit yn un o saith o ryfeddodau'r byd?

Mae yna gryn dipyn o densiwn a chryndod yn y Dwyrain Canol y dyddiau hyn yn naturiol, ac fe grynodd daear Cyprus tra bum i yno hefyd. Daeargryn 4.9 ar raddfa Richter, — y drydedd o fewn y flwyddyn, ond diolch i'r drefn, dim difrod.

Clywed hefyd i John Toshack gael y sac tra bum i'n crwydro, — a rhyw Fargaret Hilda hefyd.

Fe wêl Real golled ar ôl Tosh, gewch chi weld.

Selwyn Griffith

**E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Cyfarfod Cyhoeddus: Fe gynhelir Cyfarfod Cyhoeddus i'r pentref yn y Ganolfan, ar nos Fawrth, 12 Chwefror am 7 o'r gloch. Mae materion pwysig i'w trafod. Taer erfynir am eich presenoldeb.

Plaid Cymru: Cynhelir noson o adloniant gyda Dyfan Roberts, yr actiwr a'r digrifwr, yng Ngwesty Tyn Llan, Nant Peris, nos Sadwrn, 9 Chwefror. Enwau i Miss Angharad Williams, 29 Stryd Newydd, rhif ffôn: 870743, neu Mrs H. M. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, rhif ffôn: 870677, cyn gynted ag y bo modd. Enillwyr 'Clwb 100' mis Rhagfyr: £10, Mr G. Sutherland, Pen y Bont; £8.50, Mr T. A. Parry, Bro Dawel. Mis Ionawr: £10, Mr Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol; £8.50, Miss Eleri Llwyd Jones, 1 Tŷ'r Faenol.

Merched y Wawr: Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun, bardd y goron, ddaeth i roi sgwrs yng nghyfarfod mis Ionawr. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni yn sôn am farddoniaeth. Enillydd y raffl oedd Miss Nansi Owen. Bydd y cyfarfod nesaf ar 18 Chwefror.

Sefydliad y Merched: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 1991 yn y Ganolfan ar 14 Ionawr, dan lywyddiaeth Mrs Marian Williams. Darllenwyd y llythyr misol a chafwyd Cwis difyr wedi ei drefnu gan Mrs Marian Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Marian Wyn Williams a Mrs Beryl Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Kathleen Davies. Bydd y cyfarfod nesaf 4 Chwefror.

Diolch: Dymuna Mari a Billy, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd

ar eu dyweddïad. Diolch o galon.

Diolch: Dymuna Helen Mair Jones ddiolch yn fawr i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra y bu yn derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl.

Seindorf: Cynhaliwyd cyngerdd blynyddol y Seindorf leuenctid yn Ysgol Gwaun Gynfi ar 14 Rhagfyr. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd Cornet newydd i'r Seindorf er cof am y diweddar Mr Tommy Williams, gan ei deulu, a mawr yw ein diolchddynt am eu haelioni.

Llongyfarchiadau i Dylan Cole Jones ar ennill Tarian Goffa Mr a Mrs O. H. Jones, fel chwaraewr ifanc gorau'r flwyddyn. Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Wyn Williams ar ennill Tarian Goffa Mr John Childs am ei waith rhagorol gyda'r Seindorf leuenctid.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Seindorf, nos Sul, 20 Ionawr, dan lywyddiaeth Mr Gwyn Oliver Jones. Bu 1990 yn hynod o lwyddiannus i'r ddau fand a diolchodd y llywydd i Mr Graham Sanders, Dafydd Wyn Williams a Mr Hefin Jones am eu gwaith ardderchog drwy'r flwyddyn, a mawr hyderwn y bydd y flwyddyn yma yr un mor lwyddiannus. Bydd pethau efallai yn anos eleni oherwydd dyrchafiad y band i'r drydedd adran ym Mhrydain a'r adran gyntaf yng Nghymru. Cafwyd adroddiad ariannol boddhaol gan y trysorydd a diolchodd y llywydd i'r swyddogion am eu gwaith.

Derbyniwyd aelod newydd i'r Seindorf, sef Emily Roberts o Seindorf Porthaethwy. Dymunwn bob llwyddiant iddi yma yn Deiniolen.



Dylan Cole Jones yn derbyn Tarian Coffa Mr a Mrs O. H. Jones gan Hefin Jones.



Louise Jones yn derbyn Cornet er cof am y diweddar Tommy Williams gan ei ferch Mrs Linda Jones.

HYBU CIG OEN CYMREIG

Ddechrau Rhagfyr trefnodd dau ffermwr defaid o'r fro noson arbennig iawn yn nhafarn Y Bedol, Bethel, noson i hybu cig oen Cymru. Teimlai'r ddau, Dafydd Morris o Gefn Coch, Deiniolen, a Moi Hughes o Bentir nad oedd digon yn cael ei wneud i hybu cig oen Cymreig.

Gwahoddwyd perchnogion gwastai, rheolwyr tafarnau a bwyta i bob rhan o Wynedd i'r Bedol i wledd o gig blasus pump o ŵyn a fagwyd wrth droed yr Wyddfa. Gobeithir y bydd cynnydd ym mhoblogrwydd cig oen ar fwydlenni mewn tai bwyta

ar ôl yr ymdrech yma i 'werthu'r' cynnyrch.

Roedd yno hefyd arddangosfa o gig oen gan gigydd lleol, Robin Jones o'r Felinheli, a threfnwyd raffl gyda'r cig oen yn ystod y noson. Codwyd £250 tuag at Ysgol Pendalar, Caernarfon.

Y FENTR NEWYDD

A glywsoch am y fentr newydd
Sydd ar droed yn yr ardal
Mi ddywedaf wrthyh yn ebrwydd
Pa ddiben bellach ymatal.

Ffarmwrs defaid 'ma yn rhyw deimlo
Bod y farchnad yn mynd o'u dwylo
A bod rhaid cael cynllun i'w adfywio
Gan na ddaw dim byd wrth gwyno.

A bod anwybodaeth mawr yn ffynu
Am ragoriaethau cig oen Cymru
A dyna sydd wedi ei benderfynu
Cael ymdrech leol i'w hysbysebu.

Trefnwyd noson arbennig i ragflasu'r cynllun
Yn y Bedol, Bethel, lle hwylus i roi iddo sbardun
Dan nawdd Dafydd Cefn Coch a Moi Tai Isa Pentir
Dau ffarmwr cefnog, a'u defaid ar yr ucheldir.

Mae'r neges yn cael ei anelu yn benodol
At fasnachwyr, tafarnwyr, a tai bwyta lleol
Am amrywiaeth o seigiau, mewn dull gwahanol
Sydd yn bosibl petai nhw yn fwy uchelgeisiol.

Fel pan ddaw'r ymwelwyr wrth y miloedd yn yr haf
Cofiwch ddweud am y byrgyrs, y chops, a'r 'lovely lamb we have',
Yn syth o Snowdon, y grug a'r Mountain Air
Mae nhw'n sgramiwrs gyda'r gora, a mi fydd'u pres nhw 'O môr bêr'.

Gan hynny gyfeillion, os am gig oen blasus coch
Cefnogwn fentr Moi Huws Pentir a Dafydd Morris Cefn Coch
A'u llongyfarch yn galonnog, am dorri tir newydd a mentro
Lle bod fel y gweddill, byth a beunydd yn cwyno.

H.J.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol
Am holl anghenion eich offer nwy

FFLAM ERYRI

Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain

Gwasanaeth 24 awr


Geraint Fôn Williams Penmaenmawr 622422

Dyddiadur y Mis

1. **Gwener. Deiniolen:** Bingo, Ystafell y Band, 8.
 4. **Llun. Deiniolen:** Sefydliad y Merched.
 5. **Mawrth. Deiniolen:** Undeb y Mamau, 7. **Penisarwaun:** Yr Urdd, Fideo. **Dinorwig:** Pwyllgor y Ganolfan, 7.
 6. **Mercher. Yr Ardal:** Antur Padarn. Cyfarfod Cyhoeddus yn Angorfa, Llanberis, 7. **Bethel:** Merched y Wawr — Cwis gyda changen Penygroes.
 7. **Iau. Yr Ardal:** Cyfarfod i sefydlu Pwyllgor Datblygu Dylunio a Thechnoleg Eryri, yn yr Aelwyd, Caernarfon, 7.30. **Cwmyglo:** Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug.
 8. **Gwener. Yr Ardal:** Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. **Deiniolen:** Bingo, Ystafell y Band, 8. **Waunfawr:** Clwb y Mamau — Noson Goffi yn y Ganolfan, 6.30.
 9. **Sadwrn. Deiniolen:** Plaid Cymru — Noson yng nghwmni Dyfan Roberts yn Nhan Llan, Nant Peris.
 11. **Llun. Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol. Noson yng nghwmni Guto Roberts.
 12. **Mawrth. Llanrug:** Merched y Wawr. Cwis dan ofal Arwel Jones. **Deiniolen:** Cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan, 7. **Penisarwaun:** Yr Urdd, Gemau.
 15. **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band, 8.

18. **Llun. Deiniolen:** Merched y Wawr. **Brynrefail:** Sefydliad y Merched.
 19. **Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd, Sleidiau.
 20. **Mercher. Llanrug:** Plaid Cymru, sgwrs ar arlunio gan Frank Green yn y Sefydliad Coff, 7.30. Croeso i bawb. **Waunfawr:** Cyfarfod cyhoeddus gan bwyllgor eisteddfod y pentref yn y Ganolfan, 7.30.
 21. **Iau. Yr Ardal:** Cyngerdd gyda Lleisiau'r Frogwy, arweinydd Gareth Glyn, a Leslie Williams, adroddwr. Yng ngwesty Fictoria, Llanberis, tocynnau £5.
 22. **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band, 8.
 23. **Sadwrn. Yr Ardal:** Eisteddfod Cylch yr Urdd, plant 12-15 oed yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.
 25. **Llun. Llanrug:** Tombola yn Ystafell y Band. **Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol — Straeon Gwerin Dyffryn Nantlle gyda Dewi Tomos, Rhostryfan.
 26. **Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd, noson yng ngofal Richard Lloyd Jones, Bethel.
 27. **Mercher. Caeathro:** Cyfarfod cymdeithas 'Ger y Tân' ym Montnewydd.
 28. **Iau. Dinorwig:** Cymdeithas Undebol, noson Cawl a Chân yn y Ganolfan, 7.

CROESAIR CHWEFROR



AR DRAWS

1. Un 'coch' ger Aberystwyth (6)
2. Yn fyw am byth (8)
8. Oen Llywaeth (4)
10. Cartref ymlusgiaid (6)
11. Gwelir hwy ar 5/11 (6)
14. Caniatâd i ffrind (3)
16. Llwyn (5)
17. — Rebecca y daeth y nawdd (1,3)
19. Stori henafol (5)
21. Un o fois y cyfryngau (5)
22. — oedd y tywydd tros y Calan (2,3)
23. Bryn Terfel, Maes Artro neu Bob Tom Mic Aaron (1,1,1,1)
26. Un o'r pedwar amser (5)
28. Pws! Meri — (3)
29. Un rhan o'r gynghanedd gerddorol (6)
30. Cwodyn taclus (3,3)
31. Bwyd y Werin (4)
32. Yr ail siambr (8)
33. Mae ef wedi gwneud (6)

I LAWR:

1. Dadgroeni (6)
2. Carchar yr Esgimo? (6)
3. Fy hen fam (4)
4. — gobeithio cyn rhyfel (3,4)
5. Gwell — na! (5)
6. Merch neu garw benywaidd (5)
8. Hen air am wthio i ffwrdd — tebyg i bwdin (4)
9. Newydd ynteu cona? (3)
12. Mae buwch yn ei gnoi (3)
13. Dim gwerth na nerth (5)
15. 'Peint' poblogaidd (5)
18. Ffrwyth y Nadolig (5)
19. Gwynt ysgafn (3)
20. Sail monetariaeth (3)
21. Hawdd i'w falu (7)
22. Dymuniad mawr Mr Picton (3)
23. Crafu fel crwydrn (6)
24. Enw ar gath hwyrach (4)
25. Y man cryfaf fwyaf nerthol (6)
26. Chdi (5)
27. Hwnnw o 3 i lawr (5)
28. Presennol trydydd person 'bod' (3)
30. Crib hwyrach! (4)

KOKORO SHUKOKAI



Dim ond tri mis sydd ers pan sefydlwyd Clwb Karate Kokoro Shukokai yn Llanrug, ond y mae'r Clwb eisoes wedi gwneud enw iddo'i hun fel aelod o'r Gymdeithas Karate Shukokai fwyaf yng Nghymru, Kevin Siddall a Gareth Edwards fu'n gyfrifol am sefydlu'r Clwb. Ym mis Rhagfyr y llynedd, cynhaliwyd profion graddio yn Nolgarrwg, a Chlwb Llanrug a enillodd Dlws y Prif Glwb ar sail

eu marciau graddio. Yr uchaf ei farciau yn yr Adran Iau oedd Anna Waterson (9 oed) o Gaernarfon, ac yn yr Adran Hŷn, Meriel Wood o Rosisaf.

Mae'r Clwb yn ymarfer bob nos Fawrth yn Ysgol Brynrefail — ieuencid rhwng 6.30 a 7.30, a'r aelodau hŷn hyd 8.30. Os oes unrhyw un o'r fro a diddordeb mewn ymuno, mae croeso i bob oed. Am fwy o fanylion ffoniwch Caernarfon 77219.

ATEBION CROESAIR NADOLIG-IONAWR

Wyth ymgais ddaeth i law y tro hwn, ac y maent i gyd o fewn trwch blewyn o fod yn hollol gywir — **OND**,



ac y mae **OND**! Roedd pump o'r wyth wedi ateb 12 ar draws fel **LLAWIAU** yn hytrach na **LLAWIACH** a'r tri arall yn rhoi 13 i lawr fel **ARFER DA** yn hytrach na **ARFER DDA**.

Felly, doedd neb yn berffaith gywir! Bydd dwy wobwr y mis nesaf felly. Anfonwch i'r Golygydd Erthyglau erbyn 19 Chwefror. Hwyl fawr — a gwyliwch y mân lythrennau!

- Jig i Atgyweirio Cyrrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbectro
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

FIDEO FIDEO FIDEO

Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol

JOHN BLIGHT
LLANBERIS

872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

CHWARAEON

Pêl-droed y Gynghrair

Fe addewais ar y dudalen ôl ym mis Rhagfyr mai tîm pêl-droed Deiniolen fyddai'n ei haddurno yn rhifyn y Nadolig. Yn anffodus, bu'r tywydd ynghyd â pheth anlwc yn ein herbyn — pan oedd y camera ar gael fe ohiriwyd y gemau, ac ar yr achlysur hynny pan na fu'r tywydd yn drech . . .

Daeth peth da o'r drwg er hynny, a phe byddwn wedi cyflawni fy mwriad gwrieddiol, ni fyddai'r tîm wedi derbyn eu dillad newydd smart ar gyfer y llun. Jackie a Tim Jones yw perchnogion y Beran Filling Station a agorwyd ar ddydd Ffair y Borth ar y ffordd fawr rhwng Groeslon Tŷ Mawr a Llwyncoed,

a'u dymuniad hwy oedd cyflwyno set o'r dillad hardd mewn du a gwyn, gyda'r geiriau 'Beran Garage, Deiniolen' ar y crysau i'r tîm lleol. Yn y llun gwelir Tim, gyda Sasha, ei wyres fach yn ei freichiau'n cyflwyno'r rhodd i Kevin John Jones, capten y tîm, a'r rheolwr Euryd Owen.



Dewi Gibson yw'r gôl-geidwad, a'r amddiffynwyr yw Howyn Roberts, Kevin John Jones, Merfyn Morris, Kevin Jones, Llion Evans a Ieuan Rowlands. Mae Neil Rowlands, Arwel Hughes, Alan Williams a Michael Jones yn chwarae yng nghanol y cae, a'r blaenwyr yw Phyl Warrington, Alwyn Williams a Richard Owen.



Bu'n dymor pur lwyddiannus iddynt hyd yma, gyda'u safle yn hanner uchaf tabl cynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch, ac mae'n siwr mai un o'r uchelbwyntiau hyd yma oedd rhoi crasfa o 4 gôl i 1 i ail dîm Llanberis yn ystod y mis.

Cwis Cynta'r Flwyddyn

Gweld chwaraewr mewn gêm bêl-droed y gynghrair ar y Cyfandir yn cael ei yrru oddi ar y maes o fewn 10 eiliad i ddechrau'r gêm a'm hysgogodd i fodio drwy'r llyfrau i chwilio am ddigwyddiad tebyg yn y wlad hon. Er fy mawr syndod, bu'r hyn a ddarganfyddais yn destun amserol a phlwyfol, gan mai mewn gêm ar ddydd Nadolig, 1936, rhwng Wrecsam a Halifax y crëwyd y record o yrru chwaraewr i'r baddon mewn 20 eiliad o ddechrau'r gêm. Dwn i ddim pwy oedd o na beth oedd ei drosedd, ond dyna'r ateb i gwestiwn cyntaf cwis y Nadolig.

Dyma'r atebion eraill: fe gynhaliwyd rhan o'r Tour de France yn Plymouth yn 1974; Jesse Owens, wrth gwrs oedd berchen record naid hir y byd rhwng '35 a '60; bu Ken Rosewall mewn ffeinal yn Wimbledon yn 1954 a 1974; polo dŵr yw'r gêm ple mae un tîm pob amser mewn glas tywyll a'r llall mewn gwyn; Larry Holmes roes gurfa i Muhammad Ali yn 1980, ac mae Mr Maggie Thatcher (Dennis) yn reffari Rygbi'r gynghrair; Cliff Thorburn o Canada yw'r unig chwaraewr Snwcer o du allan i Brydain i ennill pencampwriaeth y byd; a'r hyn sy'n gyffredin i'r siroedd criced Northants, Somerset a Sussex yw nad ydynt erioed wedi ennill y bencampwriaeth sirol. Y sgôr uchaf erioed mewn gêm dosbarth cyntaf ym Mhrydain ydi Arbroath 36, Bon Accord 0, yng Nghwpan yr Alban yn 1885.

BETH AM Y RHEIN 'TA?

1. Pa wlad oedd y pencampwyr Olympaidd mewn hoci i ddynion rhwng 1928 a 1960?
2. Pwy oedd yr athletwyr o Brydain a redodd o Los Angeles i Efrog Newydd (2,876 milltir) mewn 65 niwrnod yn 1969?
3. Pa reolwr enillodd bencampwriaeth cynghrair pêl-droed Lloegr chwe gwaith gyda'r un clwb?
4. Pa un yw'r unig wlad sydd wedi cystadlu ym mhob gemau Olympaidd, haf a gaeaf, ers 1896?
5. Pwy oedd y batiwr cyntaf i sgorio 10,000 o rediadau mewn gemau prawf?
6. Pa dîm pêl-droed sy'n chwarae ar Dean Court?
7. Pa ras sy'n mynd heibio Craven Steps a Doves?
8. Pwy oedd y peldroediwr gafodd ei gap llawn cyntaf dros Loegr yn 1950 pan yn 38 mlwydd oed?
9. Pa golffwr o'r America a adweinir fel 'the golden bear'?
10. Beth yw'r nifer mwyaf o glybiau y caniateir i olffiwr gario gydag ef mewn gêm?

SEICLO

Daeth seiclo cystadleuol bellach yn un o weithgareddau mwyaf poblogaidd yr ardal, ac y mae Clwb Seiclo Eryri yn ffynnu. Mae Mark Atkin o Lanberis, disgybl 16 mlwydd oed ym mhumed flwyddyn Ysgol Brynrefail, yn aelod, ac ef oedd gyflymaf yn y ras 10 milltir a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar, mewn amser o 28.29 munud.

Fe ddechreuodd rasio yn ystod haf y flwyddyn diwethaf, ac ym mis Medi fe enillodd ddau dlws am fod y gorau o glwb Eryri, ac yn drydydd o'r holl gystadleuwyr mewn cystadleuaeth rhwng dau glwb o Nant Peris i Ben y Pas — hyn mewn llai na 16 munud! Pob lwc iddo yn y dyfodol.



CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

NOFIO

Fe lwyddodd nifer o blant y flwyddyn gyntaf i ennill bathodynau 'Aquanaut' yn ystod eu gwersi nofio cyn y Nadolig. Mae'r gyfres hon o brofion wedi ei graddio fel y caniateir i bob disgybl, beth bynnag eu safon, gael dysgu sgiliau sylfaenol achub bywyd yn y dŵr. Y rhai llwyddiannus oedd: Vicky Sinclair, Darren Lowther, Dilwyn Roberts, Llion Pritchard, Carwyn Lloyd, Nicole Hughes, Sioned Jones, Hugh Roberts, Marie Carr, Gareth Jones, Lindsey Parry, Sara Pepper, Eurig Druce, Eifion Roberts, Siân Thomas, Carwyn Morris a Ben Owen.

GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

Daeth gwahoddiad o Ganolfan Awyr Agored Llanrug gan Mr Ron Twigg a Mr Mike Josey i ddisgyblion y 6ed dosbarth gael hyfforddiant yno mewn

rhai gweithgareddau awyr agored dan ofal hyfforddwyr y ganolfan, a hynny'n rhad ac am ddim.

Fe fanteisiodd deg o'r bechgyn ar y cyfle ac fe gawsant ganwio ar Lyn Padarn yn ystod y bore ac yna ddringo ac abseilio yn y p'nawn. Cafwyd mwynhad mawr o'r gweithgareddau a'r hyfforddi ac mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i weithwyr y ganolfan. Gobeithir meithrin y cysylltiad rhwng y ddau sefydliad fel y caiff mwy o'r disgyblion yr un cyfle yn y dyfodol.

RHEDEG TRAWS GWLAD

Ni fu'n syndod i neb weld Carolyn a Colin Jones, y brawd a chwaer o Bontrug sy'n gyfarwydd iawn bellach â llwyddiant, yn ennill eu dwy ras hwy ym mhencampwriaethau ysgolion Arfon ym Mangor yn ystod y mis. Daeth Caitlin Wroe hefyd yn bedwerydd yn ei ras hithau, a fe fydd y tri, ar sail eu llwyddiant, yn cystadlu yn y dyfodol agos ym mhencampwriaethau Ysgolion Gwynedd.